Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Cyllideb Ddrafft 2009-2010



Hydref 2008

## RHAGAIR

Cytundeb *Cymru'n Un* yw conglfaen Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r ddogfen yn cyflwyno rhaglen raddol ac uchelgeisiol ar gyfer y llywodraeth dros y tymor Cynulliad hwn. Mae'r rhaglen hon yn ceisio gwella ansawdd bywydau pobl ym mhob rhan o Gymru, yn enwedig y rheini sydd fwyaf agored i niwed a'r mwyaf difreintiedig.

Mae cyllideb *Cymru'n Un* yn darparu'r buddsoddiad sydd ei angen er mwyn parhau i weddnewid Cymru yn genedl a chymdeithas hyderus, ffyniannus, iach sy'n deg â phawb. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau sy'n cyfrif mewn gwirionedd. Er enghraifft: gwella iechyd pobl Cymru; trechu tlodi; diwallu anghenion tai; gwella gwasanaethau cyhoeddus; codi lefel cyflogaeth a gwella sgiliau; ac adfywio cymunedau difreintiedig.

Roedd y gyllideb derfynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Ionawr 2008, ac a gymeradwywyd wedi hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn nodi cyllidebau adrannol ar gyfer 2008-09, 2009-10 a 2010-11. Mae'r cyllidebau hyn yn ei gwneud yn bosibl gweld cynnydd gwirioneddol o ran ein rhaglen *Cymru'n Un* a'r rhain yw sylfaen ein gweithgareddau ar gyfer y dyfodol yn dal i fod. Nod y gyllideb ddrafft hon yw mireinio'r ffigurau a gyhoeddwyd ar gyfer 2009-10 a 2010-11 a rhyddhau adnoddau mewn ffordd strategol o'r cronfeydd cyfyngedig a bennwyd y llynedd i'n galluogi ni i hyrwyddo agenda *Cymru'n Un*.

Rydym bellach yn gweithredu mewn hinsawdd economaidd mwy heriol ac amgylchedd ariannol anos nag a wynebwyd ers dechrau'r Cynulliad Cenedlaethol ym 1999. Mae gwariant cyhoeddus yn tyfu ar lefel lai na 2% y flwyddyn mewn termau real - ymhell islaw'r twf real blynyddol o bron i 7% a welwyd yn nhymor cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol a 4% yn yr ail hyd yn oed.

Mae ein cynlluniau gwario diwygiedig yn dangos sut rydyn ni'n adweithio i'r heriau hyn. Maent yn dangos ein bod yn Llywodraeth sydd wedi ymrwymo i weithredu dros bobl Cymru, ac yn Llywodraeth hefyd sy'n gallu sicrhau gwell gwerth am arian i'r bunt Gymreig ac ymateb i her amgylchedd economaidd sy'n newid. Maent yn dangos ein bod yn gallu parhau i weithredu agenda *Cymru'n Un* er mwyn pobl Cymru, oherwydd y seiliau rydym wedi'u gosod a'r penderfyniadau anodd weithiau y buom yn barod i'w cymryd.

Diben y ddogfen newydd hon yw nodi'n glir sut mae cyllideb Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei defnyddio i sicrhau manteision ledled Cymru. Ei diben yw nid cyhoeddi dyraniadau arian eang newydd ar gyfer Adrannau; pennwyd y rhain y llynedd. Yn hytrach, ei bwriad yw rhoi gwell dealltwriaeth o broses y gyllideb a bod yn gliriach ynghylch cynlluniau gwario Llywodraeth y Cynulliad, a sut y byddant o fudd i bobl ledled Cymru.

**Andrew Davies AC**
**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

# CYNNWYS

*Tudalen*

1. TROSOLWG
    - Rhagarweiniad *2*
    - Cyd-destun Gwariant Cyhoeddus *2*
    - Comisiwn Holtham *3*
    - Cyllideb Llywodraeth y Cynulliad *4*
    - Prif newidiadau i gynlluniau blaenorol *8*
    - Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol *9*
    - Cronfeydd *11*
    - Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn (HDB) *11*

2. IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL *12*

3. CYFIAWNDER CYMDEITHASOL A LLYWODRAETH LEOL *17*

4. YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH *21*

5. PLANT, ADDYSG, DYSGU GYDOL OES A SGILIAU *27*

6. YR AMGYLCHEDD, CYNALIADWYEDD A THAI *32*

7. MATERION GWLEDIG *35*

8. TREFTADAETH *38*

9. GWASANAETHAU CYHOEDDUS A PHERFFORMIAD *41*

10. GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU *43*

ATODIAD 1 Cysoni'r Gyllideb Weinyddol a Dyraniadau Adnoddau yn y Cynnig Blynyddol am y Gyllideb *46*

ATODIAD 2 Stociau HDB Cronnol Hanesyddol *51*

ATODIAD 3 Rhestr Dermau *52*

Dylech anfon unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon at:

Budget and Strategic Planning@Wales.gsi.gov.uk

# 1 TROSOLWG

## Rhagarweiniad

**1.1** Roedd y gyllideb derfynol y cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol arni ym mis Ionawr 2008 yn nodi cynlluniau gwario tair blynedd ar gyfer y cyfnod 2008-09 i 2010-11 er mwyn i Adrannau ddatblygu agenda *Cymru'n Un*. Yn y cyd-destun hwn, mae pennu cyllideb ddrafft 2009-10 yn ymarfer llawer llai sy'n ceisio dyrannu cyllid cyfyngedig o gronfeydd er mwyn datblygu blaenoriaethau strategol.


**1.2** Diben y ddogfen hon yw gwneud pethau'n fwy tryloyw, gosod y gyllideb mewn cyd-destun strategol a rhoi gwybodaeth benodol ar gynlluniau gwario diwygiedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y cyfnod 2009-10 i 2010-11. Mae'n rhoi gwybodaeth am y cyd-destun ehangach o ran gwariant cyhoeddus a materion cysylltiedig, sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni ei hamcanion a pha newidiadau sy'n cael eu gwneud eleni i gynlluniau gwario a gyhoeddwyd eisoes. Mae penodau diweddarach yn canolbwyntio ar weithgareddau Adrannau unigol, ond yn naturiol mae pob Adran yn cydweithio i weithredu agenda *Cymru'n Un*.

**1.3** Mae'r ddogfen hon yn cael ei chyhoeddi i ategu'r Cynnig Blynyddol drafft am y Gyllideb, sy'n nodi'r adnoddau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu eu defnyddio yn ystod y ddwy flynedd nesaf a'r arian y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.[1]. Hefyd, mae manylion y gwariant o fewn Llinellau Gwariant y Gyllideb (o dan fanylion y lefelau rhaglenni yn y ddogfen hon)[2] i'w gweld ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

## Cyd-destun Gwariant Cyhoeddus

**1.4** Ar gyfartaledd, mae cyllideb Llywodraeth y Cynulliad wedi tyfu 4.5% y flwyddyn mewn termau real ers datganoli. Ond fel mae siart 1.1 yn ei ddangos, bydd cyllideb Llywodraeth y Cynulliad yn cynyddu'n arafach yn nhrydydd tymor y Cynulliad Cenedlaethol nag yn y ddau gyntaf. Er bod gwariant wedi codi bron i 7% y flwyddyn mewn termau real rhwng 1999 a 2003, arafodd y twf mewn termau real i ychydig dros 4% y flwyddyn rhwng 2003 a 2007 a rhagwelir y bydd yn llai na 2% y flwyddyn rhwng 2007 a 2011. Mae’r hinsawdd ariannol dynn hon yn tanlinellu pwysigrwydd gweithredu parhaus ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru i annog pobl i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol er mwyn sicrhau’r budd mwyaf o’r gyllideb sydd ar gael.

[1] a [2] Dolen i’r cynnig blynyddol drafft am y gyllideb a thablau Llinellau Gwariant Cyllideb: http://new.wales.gov.uk/about/finance/assemblybudgets/?lang=cy




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ystadegol o Wariant Cyhoeddus, blynyddoedd amrywiol*
*Sylwer: Nid yw'r ffigurau yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol a dibrisiant.*

**1.5** Caiff y twf hwn ei ddosbarthu'n anghyson ar draws y cyfnod rhwng 2008-09 a 2010-11. Mae twf real yng nghyllideb Llywodraeth y Cynulliad yn 2008-09 yn llai nag 1%, gan godi i ychydig dros 2% yn 2009-10 a 2.7% yn 2010-11. Mae'r dosbarthu anghyson hwn wedi effeithio'n sylweddol ar benderfyniadau dyrannu. Serch hynny, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi £3.6bn ychwanegol yn ystod y cyfnod rhwng 2008-09 a 2010-11, gyda chyfanswm y gyllideb yn codi i £16bn bron.

**1.6** Er nad yw cyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i 2010-11 wedi'i phennu eto, mae ffigurau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn awgrymu bod y gyfradd arafach hon yn nhwf gwariant cyhoeddus yn debygol o barhau yn y cyfnod nesaf o adolygu gwariant. Yn y cyd-destun hwn, mae'n ddoeth cynllunio cyllidebau ar gyfer 2011-12 ar sail y rhai ar gyfer 2010-11.

## Comisiwn Holtham

**1.7** Mae *Cymru'n Un* yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i weithio i sicrhau ei bod yn derbyn dyraniad teg o arian fel y gall pobl o bob rhan o Gymru weld gwahaniaethau a fydd yn para a chanlyniadau gwirioneddol. Fel rhan o hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Comisiwn Annibynnol i

adolygu materion cyllid, gan gynnwys astudio fformwla Barnett[3], pwerau amrywio trethi a phwerau benthyca.

**1.8** Cadeirir y Comisiwn Annibynnol – panel bach o arbenigwyr – gan Gerry Holtham, un o'r economegwyr a'r rheolwyr cronfeydd buddsoddi uchaf ei barch yn y DU. Fel cam cyntaf, bydd y Comisiwn Annibynnol yn adolygu Fformwla Barnett, cyn ceisio ehangu ei waith mewn ail gam i ystyried materion eraill pellach gan gynnwys pwerau amrywio trethi a phwerau benthyca. Un o elfennau hanfodol gwaith y Comisiwn fydd datblygu sylfaen dystiolaeth drwyadl a chadarn i sicrhau bod y materion dan sylw yn cael eu trafod ar sail gwybodaeth.

**1.9** Bydd y Comisiwn yn cynnal ei gyfarfod cyntaf ar 7 Hydref 2008 a disgwylir iddo alw am dystiolaeth drwy holi barn arbenigwyr a grwpiau perthnasol ledled Cymru a'r DU.

**1.10** Disgwylir i'r Comisiwn lunio adroddiad interim ar ran gyntaf ei waith erbyn haf 2009. Caiff hwn ei gyhoeddi ac yna'i drafod yn y Cynulliad. Bydd gwaith manwl pellach yn parhau yn dilyn yr adroddiad interim a'r drafodaeth yn y Cynulliad.

## Cyllideb Llywodraeth y Cynulliad

**1.11** Mae Tabl 1.1 yn dangos sut mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu ei chyllideb Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) i Brif Grwpiau Gwariant (PGG) yn y cyfnod 2008-09 i 2010-11. Mae'n dangos hefyd y cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a phroffil dangosol ar gyfer y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol. Mae'r rhain i gyd yn dod o gyllideb TGA gyffredinol Cymru. Y ffigur ar gyfer cronfeydd yw'r gwahaniaeth rhwng y symiau a ddyrennir a chyllideb gyffredinol Llywodraeth y Cynulliad. Mae Tabl 1.2 yn dangos y rhaniad rhwng yr arian refeniw a'r arian cyfalaf a ddyrennir i bob PGG ar gyfer 2009-10 a 2010-11.

**1.12** Yn Nhabl 1.3, rhagwelir lefelau cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF) Llywodraeth y Cynulliad yn y cyfnod 2008-09 i 2010-11. (Diffinnir GRF fel gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn dros sawl blwyddyn yn yr un ffordd â TGA. Mae GRF yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr ac yn ymateb i'r galw. I gael diffiniad llawn, gweler Atodiad 3 - y Rhestr Dermau).

[3] Fformwla Barnett, a ddefnyddiwyd ers y 1970au, sy'n penderfynu ar newidiadau yng nghyllidebau gweinyddiaethau datganoledig. O dan y fformwla hon, mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn derbyn cyfran, ar sail y boblogaeth, o newidiadau i'r gwariant sydd wedi'i gynllunio ar wasanaethau y gellir eu cymharu â gwasanaethau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn Lloegr. Penderfynir ar y newidiadau yn nyraniad gwario pob gweinyddiaeth ddatganoledig yn ôl faint o newid sydd yna yng nghynlluniau gwario adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, i ba raddau y mae'r rhaglen berthnasol yn y Deyrnas Unedig yn cymharu â'r gwasanaethau a gyflawnir gan bob gweinyddiaeth ddatganoledig a phoblogaeth pob gwlad.

## Tabl 1.1 - Dyraniad Cyllideb TGA Llywodraeth y Cynulliad

| | £000s | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (PGG)** | **2008-09** | **2009-10** | **2010-11** |
| **Terfynau Gwariant Adrannol (TGA)** | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 5,692,478 | 5,995,361 | 6,178,285 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 4,268,395 | 4,399,756 | 4,529,232 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,161,130 | 1,189,249 | 1,200,746 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 1,777,869 | 1,876,105 | 1,920,152 |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 734,697 | 757,598 | 777,360 |
| Materion Gwledig | 147,361 | 152,371 | 155,990 |
| Treftadaeth | 155,626 | 161,463 | 162,358 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | 59,496 | 59,460 | 59,826 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 369,737 | 394,551 | 404,505 |
| **Cyfanswm a Ddyrennir i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad** | **14,366,789** | **14,985,914** | **15,388,454** |
| Cronfeydd Refeniw | 130,343 | 134,150 | 353,048 |
| Cronfeydd Cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol | 0 | 49,419 | 239,040 |
| **Comisiwn y Cynulliad** | **46,181** | **47,751** | **50,588** |
| **Archwilydd Cyffredinol Cymru** | **4,900** | **4,900** | **4,900** |
| **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** | **3,142** | **3,142** | **3,142** |
| **Cyfanswm y Gwariant yng nghyllideb TGA Cymru** | **14,551,355** | **15,225,276** | **16,039,172** |
| *Proffil ariannu dangosol o'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol* | *50,000* | *100,000* | *250,000* |

*Nodiadau: Daw'r ffigurau ar gyfer 2008-09 o Gyllideb Derfynol 2008-09. Gallai'r rhain gael eu hadolygu drwy Gyllideb Atodol.*

*Caiff proffil cyllideb dangosol y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol ei ariannu o'r cronfeydd cyfalaf sydd ar gael a Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn (HDB) (gweler paragraffau 1.21 i 1.25). Fel mae paragraff 1.17 yn ei nodi, mae peth o'r arian hwn eisoes wedi'i ddyrannu i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Rhaglen Ymbaratoi Cymru Gyfan ar gyfer Ffliw Pandemig.*

*Os tynnir costau o Gronfa Gyfunol Cymru yn uniongyrchol, bydd cronfeydd refeniw yn lleihau o swm dangosol o £500k i £700k y flwyddyn.*

### Tabl 1.2 - Dyraniad Cyllideb TGA Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth y Cynulliad

| | £000s | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prif Grwpiau Gwariant (PGG)** | **2009-10** | | | **2010-11** | | |
| **Terfynau Gwariant Adrannol (TGA)** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 5,620,747 | 374,614 | **5,995,361** | 5,838,171 | 340,114 | **6,178,285** |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 4,323,325 | 76,431 | **4,399,756** | 4,447,201 | 82,031 | **4,529,232** |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 721,844 | 467,405 | **1,189,249** | 732,251 | 468,495 | **1,200,746** |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 1,648,464 | 227,641 | **1,876,105** | 1,694,441 | 225,711 | **1,920,152** |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 350,233 | 407,365 | **757,598** | 371,995 | 405,365 | **777,360** |
| Materion Gwledig | 134,835 | 17,536 | **152,371** | 138,454 | 17,536 | **155,990** |
| Treftadaeth | 145,166 | 16,297 | **161,463** | 146,507 | 15,851 | **162,358** |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | 59,015 | 445 | **59,460** | 59,381 | 445 | **59,826** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 354,518 | 40,033 | **394,551** | 359,472 | 45,033 | **404,505** |
| **Cyfanswm a Ddyrennir i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad** | **13,358,147** | **1,627,767** | **14,985,914** | **13,787,873** | **1,600,581** | **15,388,454** |
| Cronfeydd Refeniw | 134,150 | 0 | **134,150** | 353,048 | 0 | **353,048** |
| Cronfeydd Cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol | 0 | 49,419 | **49,419** | 0 | 239,040 | **239,040** |
| **Comisiwn y Cynulliad** | 47,042 | 709 | **47,751** | 49,058 | 1,530 | **50,588** |
| **Archwilydd Cyffredinol Cymru** | 4,900 | 0 | **4,900** | 4,900 | 0 | **4,900** |
| **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** | 3,032 | 110 | **3,142** | 3,032 | 110 | **3,142** |
| **Cyfanswm y Gwariant yng nghyllideb TGA Cymru** | 13,547,271 | 1,678,005 | **15,225,276** | 14,197,911 | 1,841,261 | **16,039,172** |
| *Proffil ariannu dangosol o'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol* | | *100,000* | | | *250,000* | |

**Tabl 1.3 – Cyllideb GRF Llywodraeth y Cynulliad**

| | £000s | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (PGG)** | **2008-09** | **2009-10** | **2010-11** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)** | | | |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 14,436 | 13,025 | 13,583 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 380,000 | 430,795 | 449,524 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 170,994 | 163,660 | 174,266 |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | - 46,000 | - 75,000 | - 56,000 |
| Treftadaeth | 15,256 | 16,024 | 16,024 |
| **Cyfanswm Cyllideb GRF Llywodraeth y Cynulliad** | **534,686** | **548,504** | **597,397** |

*Nodiadau: Daw'r ffigurau ar gyfer 2008-09 o Gyllideb Derfynol 2008-09. Gallai'r rhain gael eu hadolygu drwy Gyllideb Atodol.*
*Mae ffigurau 2009-10 a 2010-11 yn adlewyrchu'r ffigurau GRF diweddaraf a roddwyd i Drysorlys EM.*

*Mae Tablau 1.1 ac 1.2 yn dangos cyllidebau ar sail weinyddol. Mae'r ffigurau yn y Cynnig Blynyddol am y Gyllideb, sy'n awdurdodi Gweinidogion Cymru i wario hyd at lefel benodol i ddiben benodedig, yn seiliedig ar adnodd. Mae Atodiad 1 yn esbonio'r gwahaniaethau hyn yn fanylach ac yn cysoni'r cyllidebau gweinyddol a'r cyllidebau adnodd.*

Mae tabl 1.4 yn dangos y twf canrannol ar gyfer pob PGG yn y cyfnod hwn

**Tabl 1.4 – % newid yn y gyllideb ers y flwyddyn gynt**

| | % newid | |
|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (PGG)** | **2009-10** | **2010-11** |
| **Terfynau Gwariant Adrannol (TGA)** | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol[4] | 5.3 | 3.1 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 3.1 | 2.9 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 2.4 | 1.0 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 5.5 | 2.3 |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 3.1 | 2.6 |
| Materion Gwledig | 3.4 | 2.4 |
| Treftadaeth | 3.8 | 0.6 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | 0.0 | 0.6 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2.7 | 2.5 |
| **Cyfanswm a Ddyrennir i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad** | **4.3** | **2.7** |

*Noder: Nid yw'r newid canran ar gyfer Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn 2009-2010 a 2010-11 yn cynnwys y cynnydd sy'n gysylltiedig â dyraniadau nad ydynt yn arian parod nac ychwaith y cynnydd mewn arian cyfatebol.*

## Prif newidiadau i gynlluniau blaenorol

[4] Mae'r ffigyrau a gyhoeddwyd ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys £63m yn 2009-10 a £54m yn 2010-11 ar gyfer amseroedd aros. Mewn blynyddoedd blaenorol, darparwyd y cymorth hwn gan arian Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn, ac felly nid yw wedi ei gynnwys yn y ffigur cymharol ar gyfer 2008-09.

**1.13** Mae adrannau 2 i 10 yn rhoi mwy o fanylion am sut mae cyllidebau PGG yn cael eu dosbarthu rhwng rhaglenni gwariant gwahanol Llywodraeth y Cynulliad, gan roi ystyriaeth i'r ymrwymiad i egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd a chynwysoldeb i Gymru gyfan a'i holl bobl. Maent yn cynnwys hefyd fwy o fanylion am newidiadau rhwng y cynlluniau gwario ar gyfer 2009-10 a 2010-11 sydd wedi'u nodi yng nghyllideb derfynol 2008-09 a'r cynlluniau gwario sydd wedi'u nodi yn y gyllideb ddrafft hon ar gyfer 2009-10.

**1.14** Mae'r gyllideb ddrafft gyffredinol yn dyrannu adnoddau TGA ychwanegol, sef £163m o refeniw a £44m o gyfalaf yn 2009-10, a £207m o refeniw a £7m o gyfalaf yn 2010-11. Mae'r prif newidiadau wedi'u crynhoi isod.

- Dyfodol Iach – bydd y GIG yng Nghymru yn derbyn cyllid untro pellach o £63m yn 2009-10 i gynnal y cynnydd tuag at gyrraedd targedau Rhagfyr 2009 o ran amseroedd aros. Bydd hyn yn golygu na fydd unrhyw glaf, erbyn Rhagfyr 2009, yn aros mwy na 26 wythnos rhwng cael ei gyfeirio ar gyfer triniaeth a derbyn y driniaeth honno. Bydd £54m ychwanegol yn helpu i gynnal hyn yn 2010-11. Hefyd, rhoddir arian ychwanegol, sef £6.2m yn 2009-10 ac £16.2m yn 2010-11 i gefnogi ymchwil a datblygu meddygol. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn dyrannu £10m ychwanegol yn 2009-10 a £21m yn 2010-11 ar gyfer materion amrywiol sy'n rhoi pwysau ar y gwasanaeth iechyd.

- Dysgu i Fyw - £20m ychwanegol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn 2009-10, a £40m yn 2010-11 i sicrhau bod y rhaglen hon i weddnewid addysg y blynyddoedd cynnar yn adeiladu ar ei dechrau llwyddiannus.

- Cymdeithas Lewyrchus - bydd £15m yn 2009-10 a 2010-11 yn mynd at drafnidiaeth i ategu'r cynllun prisiau gostyngol a pharhau i wella'r rhwydweithiau trafnidiaeth ledled Cymru.

- Amgylchedd Cynaliadwy - mae £2m ychwanegol wedi'i ddyrannu yn 2009-10 a 2010-11 i gefnogi'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, sy'n helpu i leihau biliau tanwydd ac allyriadau carbon deuocsid i gartrefi yng Nghymru.

- Cenedl Gref a Hyderus - mae'r achosion niferus o lifogydd ledled y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi dangos mor hollbwysig yw mesurau gwrthsefyll effeithiol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu dyrannu adnoddau ychwanegol ar gyfer mesurau gwrthsefyll, gan gynnwys:
  - arian cyfalaf o £40.7m yn 2009-10 a £6.2m yn 2010-11, ac arian refeniw o £5m yn 2009-10 a £15m yn 2010-11 i sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn barod pe bai ffliw pandemig yn taro;
  - £1.8m ychwanegol yn 2009-10 a £3m yn 2010-11 i weithredu gweithdrefnau newydd i reoli risg llifogydd;

- £2m y flwyddyn ar gyfer timau ymateb brys mewn ardaloedd peryglus.

**1.15** Mae'r dyraniadau TGA ychwanegol sy'n cael eu disgrifio uchod wedi'u crynhoi yn ôl adran yn nhabl 1.5. Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys adnoddau a drosglwyddir rhwng adrannau. Ceir manylion pellach yn y penodau am adrannau unigol, sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am drosglwyddo adnoddau.

**1.16** Yn ogystal â'r uchod, mae £10m ychwanegol wedi'i ddyrannu yn 2009-10 a £10.5m yn 2010-11 i gefnogi gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol ledled Cymru drwy'r grant cynnal refeniw. Bydd dyraniadau fel yr £20m ychwanegol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn 2009-10 a £40m yn 2010-11 hefyd yn ychwanegu at gyfanswm yr arian ychwanegol i awdurdodau lleol.

## Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol

**1.17** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol i gryfhau'r ffordd y mae'n mynd ati i gynllunio a gweithredu'r broses o fuddsoddi cyfalaf a sicrhau mwy o welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r Fframwaith yn tynnu ynghyd ystod llawn o fesurau i reoli rhaglen buddsoddi cyfalaf fawr mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Yn ganolog i'r Fframwaith mae Bwrdd o Weinidogion, sy'n gwneud penderfyniadau am sut caiff Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol Llywodraeth y Cynulliad ei buddsoddi. Cefnogir y Bwrdd hwn gan Banel Buddsoddi Cyfalaf Strategol, sy'n rhoi cyngor arbenigol ac annibynnol am gynigion buddsoddi o'u llunio i'w gweithredu. Mae'r Panel wedi'i benodi a chaiff ei gadeirio gan Dr Tim Stone o KPMG, ffigwr byd-enwog ym maes cynllunio seilwaith a buddsoddi. Rhagwelir hefyd y bydd y Panel hwn yn cael dylanwad ehangach wrth gynghori ar nifer o brosiectau cyfalaf trawsbynciol ac arloesol i Lywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol.

**1.18** Roedd y gyllideb derfynol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2008 yn sefydlu Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol gwerth tua £400m i ddechrau dros y cyfnod rhwng 2008-09 a 2010-11. Caiff yr adnoddau ar gyfer y gronfa hon eu tynnu o gronfeydd cyfalaf a Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn (HDB)[5].

**1.19** Hyd yma, dyrannwyd arian cyfalaf o £66.3m i un prosiect allweddol – Rhaglen Ymbaratoi Cymru Gyfan ar gyfer Ffliw Pandemig. Mae nifer o brosiectau posibl eraill yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn y Cynllun Buddsoddi Cyfalaf Strategol, a gwneir cyhoeddiadau maes o law.

---

[5] Gweler paragraffau 1.21 i 1.25 ac Atodiad 2 i gael mwy o wybodaeth am Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn.

**Tabl 1.5 – Dyraniadau TGA ychwanegol a wnaed yn y Gyllideb Ddrafft hon**

| | £000s | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (PGG)** | **2009-10** | | | **2010-11** | | |
| | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 88,670 | 40,700 | 129,370 | 111,270 | 6,200 | 117,470 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 12,180 | 0 | 12,180 | 12,176 | 0 | 12,176 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 18,000 | 0 | 18,000 | 18,000 | 0 | 18,000 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 25,000 | 3,760 | 28,760 | 45,000 | 830 | 45,830 |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 3,800 | 0 | 3,800 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| Materion Gwledig | 2,000 | 0 | 2,000 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| Treftadaeth | 1,000 | 0 | 1,000 | 1,000 | 0 | 1,000 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 12,133 | 0 | 12,133 | 12,133 | 0 | 12,133 |
| **Cyfanswm** | **162,783** | **44,460** | **207,243** | **206,579** | **7,030** | **213,609** |

*Noder: nid yw'r tabl hwn yn cynnwys adnoddau a drosglwyddir rhwng cyllidebau adrannau.*

## Cronfeydd

**1.20** Yn unol ag arferion sefydledig, caiff cronfeydd refeniw wrth gefn o tua 1% o gyfanswm cyllideb refeniw Llywodraeth y Cynulliad eu cadw i'w defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol i ddod. Ar hyn o bryd, mae ffigur y gronfa ar gyfer 2010-11 yn uwch na'r ffigur ar gyfer 2009-10, er y rhagwelir y caiff y rhan fwyaf o'r gronfa hon ei dyrannu i PGGau fel rhan o gyllideb 2010-11, yn dilyn ymarfer cyllidebu strategol ac wrth i lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n ofynnol ddod yn fwy sicr.

## Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn (HDB)

**1.21** Mae rheoli ariannol da yn golygu cadw'r gwariant o fewn y gyllideb ond gan sicrhau bod y gwariant yn dwyn cymaint o fudd â phosibl. Mae'n anochel y bydd hyn yn golygu y bydd cyfran fach o'r adnoddau sydd ar gael heb ei gwario bob blwyddyn. Mae record wych gan Lywodraeth y Cynulliad o wario'n gyson agos at 99% o adnoddau TGA sydd bron yn arian parod - lefel sy'n well na'r rhan fwyaf o adrannau Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill.

**1.22** Gall Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â gweinyddiaethau datganoledig eraill ac Adrannau Whitehall, gario adnoddau heb eu gwario drosodd rhwng blynyddoedd ariannol o dan drefniadau HDB.

**1.23** Mae adnoddau a gaiff eu cario drosodd fel HDB yn parhau i fod ar gael i'w defnyddio yng Nghymru ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn llawn fwriadu defnyddio'r stociau HDB a gasglwyd hyd 2006-07 yn ystod y blynyddoedd ariannol 2008-09 hyd 2010-11. Er enghraifft, mae HDB cyfalaf yn cael ei ddefnyddio i helpu Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Strategol Llywodraeth y Cynulliad dros y tair blynedd nesaf.

**1.24** Caiff manylion am lefel yr HDB ar gyfer pob gweinyddiaeth ddatganoledig ac Adran Whitehall eu cyhoeddi bob Gorffennaf ym Mhapur Gwyn Alldro Gwariant Cyhoeddus y Trysorlys. Mae'r ffigurau'n dangos bod stoc HDB Cymru yn isel am fod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau'n gyson bod gwariant terfynol yn agos at gyfanswm TGA ar gyfer adnoddau sydd bron yn arian parod a chyfalaf. Mae Atodiad 2 yn nodi stoc HDB cronnol hanesyddol a chyfredol Llywodraeth y Cynulliad.

**1.25** Wrth benderfynu ar gyfanswm lefel yr HDB i'w dynnu i lawr yn ystod unrhyw flwyddyn, mae'n hanfodol rhoi ystyriaeth nid yn unig i bwysau, cyfleoedd ac ymrwymiadau'r flwyddyn, ond hefyd bwysau, cyfleoedd ac ymrwymiadau posibl ar gyfer y dyfodol. Bydd unrhyw HDB a dynnir i lawr yn 2008-09 yn digwydd drwy Amcangyfrif Atodol Seneddol y Gaeaf neu'r Gwanwyn, a chaiff ei ddyrannu i PGGau drwy Gynnig Atodol am y Gyllideb. Nid oes unrhyw arian wedi'i dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn ariannol hon o'r stoc HDB sydd wedi'i chronni. Ond mae disgwyl i arian HDB gael ei ddefnyddio yn 2008-09 ac yn y dyfodol ar gyfer y strategaeth leoli (cyfalaf) ac amseroedd aros ym maes iechyd (adnoddau sydd bron yn arian parod).

# 2 IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**Mae Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwmpasu'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd. Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheoli ac yn cefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn hyrwyddo gwelliannau ym maes darparu gwasanaethau ac yn llunio polisïau, strategaethau a deddfwriaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n darparu arian ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a chyrff iechyd a gofal cymdeithasol eraill. Amcanion yr Adran yw gweithredu ymrwymiadau *Cymru'n Un* yn ogystal â *Cynllun Oes*, y strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer y GIG, a *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*, y strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Mae Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd yn arwain ym maes polisi, ymchwil a datblygu o ran iechyd y cyhoedd a chyngor iechyd proffesiynol.**

**Mae cyllideb ddrafft 2009-10 yn dyrannu £129.4m ychwanegol ar gyfer PGG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2009-10 a £117.5m yn 2010-11 o gymharu â'r cynlluniau tair blynedd sydd wedi'u nodi yng nghyllideb derfynol 2008-09. Mae hyn yn cynnwys:**

- **£63m/£54m i helpu i gyrraedd targed Llywodraeth y Cynulliad o ran amseroedd aros;**
- **£48m/£23m ar gyfer gwrthfesurau ffliw pandemig ac ymatebion i beryglon difrifol posibl eraill;**
- **£6.2m/£16.2m i weithredu ymrwymiadau *Cymru'n Un* Llywodraeth y Cynulliad ar ymchwil iechyd;**
- **£10m/£21m ar gyfer materion amrywiol sy'n rhoi pwysau ar y gwasanaeth iechyd.**

**Mae'r Adran wedi cynnal adolygiadau o sefyllfaoedd cychwynnol pob rhan o Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn wedi arwain at ailgyfeirio £96.7m yn 2009-10 a £109.6m yn 2010-11 rhwng cyllidebau unigol o fewn y PGG.**

**Ar hyn o bryd mae'r Adran yn gweithio gyda'r Adran Gyllid i adolygu ei ffi cyfalaf a gofynion eraill nad ydynt yn ymwneud ag arian parod. Bydd canlyniadau'r adolygiad yn llywio penderfyniadau am ddyraniadau yn y dyfodol nad ydynt yn ymwneud ag arian parod.**

## Meysydd Rhaglenni Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Dyraniadau'r GIG

Hwn yw'r Maes Rhaglenni Gwariant (MRhG) mwyaf yn y PGG, o bell ffordd, gyda chyllideb refeniw flynyddol o bron i £5bn. Daw'r prif gyllid ar gyfer gofal y GIG (gwasanaethau ysbyty) o'r MRhG hwn, a chaiff y mwyafrif ohono ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae cyllid ar gyfer gofal sylfaenol (meddygon teulu, deintyddion a fferyllwyr) hefyd wedi'i gynnwys yn y MRhG hwn. Yn dilyn dyraniadau cyllidebol ac ailflaenoriaethu Adrannol, gwelwyd cynnydd net o ychydig o dan £83m yn 2009-10 ac £87m yn 2010-11. Rhwng 2006-07 a 2008-09, derbyniodd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £84m y flwyddyn o HDB i gyrraedd targedau o ran amseroedd aros. Yn 2009-10, ychwanegwyd £63m at MRhG Dyraniadau'r GIG i'r un diben, ac ar gyfer 2010-11 rhyddhawyd £54m rheolaidd i helpu i gynnal perfformiad ar y lefel hon. Gwneir dyraniadau ychwanegol o £1.8m yn 2009-10 a £2.4m yn 2010-11 ar gyfer gofynion nad ydynt yn ymwneud ag arian parod, mewn perthynas ag ymbaratoi ar gyfer ffliw pandemig.

### Datblygu'r Gweithlu

Caiff rhaglenni addysg a hyfforddiant mewn swydd i broffesiynolion gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eu hariannu o'r MRhG hwn, sydd hefyd yn cefnogi Cyngor Gofal Cymru. Yn dilyn adolygiad adrannol o sefyllfaoedd cychwynnol, mae £4.8m a £5.6m yn cael ei ailgyfeirio yn 2009-10 a 2010-11 o'r MRhG hwn mewn ymateb i bwysau o fewn y PGG. Mae'r MRhG cyfalaf cyfatebol wedi'i nodi yn y gyllideb derfynol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2008.

### Gwybodaeth

Telir am y gwaith o gasglu a chofnodi gwybodaeth a data o bob rhan o'r GIG o'r MRhG hwn. Mae yna ostyngiad bach o £90k yn dilyn y gwaith o ailflaenoriaethu adrannol.

### Ansawdd a Diogelwch y Claf

Caiff Ymchwil a Datblygu ei ariannu o'r MRhG hwn, yn ogystal â mentrau i hyrwyddo cyfranogiad cleifion a gwella'u profiad. Dyrennir £6.2m ychwanegol i'r gyllideb Ymchwil a Datblygu yn 2009-10 ac £16.2m yn 2010-11 i gefnogi aelodaeth Swyddfa'r DU ar gyfer Cydlynu Strategol Ymchwil i Iechyd a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Telir am y dyraniad hwn drwy ailgyfeirio £0.9m o gyllidebau Ymchwil a Datblygu eraill, i helpu mannau eraill o fewn y GIG sydd dan bwysau ariannol.

### Gofal Sylfaenol

Mae'r MRhG hwn yn cynnwys arian ar gyfer nifer o fentrau gofal sylfaenol sy'n cael eu cynnal yn ganolog. Yn dilyn adolygiad o adrannau, ailgyfeiriwyd £3.8m yn 2009-10 a £3.6m yn 2010-11 o'r MRhG hwn mewn ymateb i bwysau mewn rhannau eraill o'r PGG.

### Iechyd Meddwl

Aiff peth cyllid ar gyfer iechyd meddwl i'r GIG drwy Gomisiwn Iechyd Cymru neu Ddyraniadau'r GIG. Mae £1.5m y flwyddyn, a gedwir yn y gyllideb Iechyd

Meddwl, yn cael ei drosglwyddo, felly, i MRhG Dyraniadau'r GIG er mwyn adlewyrchu'r llwybr tâl hwn. Nid yw'n golygu gostyngiad yn yr arian ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl felly.

### Clefydau Cronig

Yn dilyn adolygiad o adrannau, dyrennir £4.1m ychwanegol yn 2009-10 a £3.5m yn 2010-11 i'r gyllideb Clefydau Cronig, er mwyn talu i ehangu gwasanaethau arennol.

### Canser

Ymddengys bod cyllideb Canser yn gostwng £1.5m a £4.5m, ond mewn gwirionedd mae'n cynnwys arian ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer gwasanaethau radiotherapi. Y llynedd, cyhoeddwyd bod £2m a £5m o arian gofal lliniarol yn cael ei drosglwyddo i'r gyllideb Hosbis, sy'n fwy priodol.

### Gofal Iechyd Arall

Mae llinell sylfaen MRhG Gofal Iechyd Arall yn cynyddu £1.8m o 2009-10 i ariannu trawsblannu organau a meinwe.

### Mynediad Gwell

Y MRhG hwn sy'n talu am gostau rheoli a chefnogi rhaglen amseroedd aros y Llywodraeth. Yn sgil adolygiad o adrannau, caiff £0.5m ei ailgyfeirio i fannau eraill o fewn y PGG sydd dan bwysau ariannol.

### Atal Problemau

Mae adnoddau Iechyd y Cyhoedd yn cael eu hariannu o'r MRhG hwn ac yn cael eu rheoli gan Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd. Ymhlith yr adnoddau mae Her Iechyd Cymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a Chanolfan Iechyd Cymru. Mae'n cefnogi hefyd amrywiaeth o weithgareddau sy'n ymwneud â iechyd y cyhoedd a'i hybu, gan gynnwys rhaglenni brechu, rheoli baco, a maeth mewn ysgolion, yn ogystal â gwasanaethau microbioleg. Mae'r dyraniadau ychwanegol ar gyfer gwrthfesurau ffliw pandemig - £5m yn 2009-10 a £15m yn 2010-11 a Thimau Ymateb mewn Ardaloedd Peryglus (£2m yn 2009-10 a 2010-11) - wedi'u cynnwys yn y MRhG hwn. Hefyd, mae yna £1.1m ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer iechyd y cyhoedd, gan gynnwys brechlynnau. Mae £1m y flwyddyn wedi'i ailgyfeirio o'r gronfa anghydraddoldebau iechyd mewn ymateb i bwysau mewn mannau eraill o fewn y PGG, yn dilyn adolygiad o adrannau.

### Gwasanaethau Cyfiawnder Plant a Ieuenctid

Gwasanaethau i blant a theuluoedd sy'n cael arian gan y MRhG hwn yn bennaf, ond mae'n cynnwys gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid hefyd. Cynyddir cyllideb y Gwasanaethau Plant £2.3m y flwyddyn i helpu plant sy'n agored i niwed a chefnogi strategaethau awtistiaeth. Mae'r gyllideb Bwyd Lles, sy'n ymateb i'r galw, wedi'i lleihau £1.2m ac £1.3m i adlewyrchu'r galw a ragwelir yn y dyfodol. Mae'r MRhG cyfalaf cyfatebol wedi'i nodi yn y gyllideb derfynol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2008.

### Gwasanaethau Pobl Hŷn

Camau i sicrhau bod y Strategaeth Pobl Hŷn yn cael ei gweithredu'n effeithiol gan awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys rhedeg swyddfa’r Comisiynydd i Bobl Hŷn. Ni chaiff y dyraniadau cyllidebol eu newid yn y MRhG hwn.

### Gofal Cymdeithasol Arall i Oedolion

Gwasanaethau cymunedol i oedolion, gwasanaethau gofal cartref a chymorth i ofalwyr drwy'r Strategaeth Gofalwyr Genedlaethol. Yn dilyn adolygiad o adrannau, ailgyfeiriwyd £2.3m yn 2009-10 a £2.8m yn 2010-11 o’r MRhG hwn i gyllideb y Gwasanaethau Plant ac mewn ymateb i fannau eraill sydd dan bwysau ariannol o fewn y PGG. Mae'r MRhG cyfalaf cyfatebol wedi'i nodi yn y gyllideb derfynol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2008.

### Dyraniadau’r GIG (Cyfalaf)

Bydd y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn dyrannu £40.7m yn 2009-10 a £6.2m yn 2010-11 er mwyn ymbaratoi ar gyfer Ffliw Pandemig. Mae hyn, ynghyd â chanlyniadau ailflaenoriaethu mewn adrannau yn golygu cynnydd o £40.5m yn 2009-10 a £6m yn 2010-11 o'i gymharu â chynlluniau yn y gyllideb derfynol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2008.

## Tabl 2.1 Dyraniadau MRhG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| | £000s | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008-09 | | | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **TGA** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Dyraniadau'r GIG | 4,805,091 | 315,093 | **5,120,184** | 5,026,246 | 366,012 | **5,392,258** | 5,202,908 | 333,012 | **5,535,920** |
| Datblygu'r Gweithlu | 291,572 | 25 | **291,597** | 298,995 | 25 | **299,020** | 307,744 | 25 | **307,769** |
| Gwybodaeth | 29,586 | 0 | **29,586** | 29,826 | 0 | **29,826** | 30,223 | 0 | **30,223** |
| Ansawdd a Diogelwch y Claf | 33,788 | 0 | **33,788** | 39,666 | 0 | **39,666** | 50,285 | 0 | **50,285** |
| Gofal Sylfaenol | 21,148 | 0 | **21,148** | 16,556 | 0 | **16,556** | 16,921 | 0 | **16,921** |
| Iechyd Meddwl | 14,716 | 0 | **14,716** | 16,106 | 0 | **16,106** | 19,206 | 0 | **19,206** |
| Clefydau Cronig | 4,378 | 0 | **4,378** | 10,996 | 0 | **10,996** | 12,915 | 0 | **12,915** |
| Canser | 4,870 | 0 | **4,870** | 6,563 | 0 | **6,563** | 9,638 | 0 | **9,638** |
| Gofal Iechyd Arall | 3,822 | 0 | **3,822** | 5,392 | 0 | **5,392** | 5,520 | 0 | **5,520** |
| Mynediad Gwell | 2,250 | 0 | **2,250** | 1,734 | 0 | **1,734** | 1,742 | 0 | **1,742** |
| Atal Problemau | 49,716 | 0 | **49,716** | 69,474 | 0 | **69,474** | 80,266 | 0 | **80,266** |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Plant a Ieuenctid | 23,082 | 600 | **23,682** | 25,546 | 600 | **26,146** | 26,723 | 600 | **27,323** |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | 4,562 | 0 | **4,562** | 4,000 | 0 | **4,000** | 2,450 | 0 | **2,450** |
| Gofal Cymdeithasol Arall i Oedolion | 69,733 | 18,446 | **88,179** | 69,647 | 7,977 | **77,624** | 71,630 | 6,477 | **78,107** |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **5,358,314** | **334,164** | **5,692,478** | **5,620,747** | **374,614** | **5,995,361** | **5,838,171** | **340,114** | **6,178,285** |

# 3 CYFIAWNDER CYMDEITHASOL A LLYWODRAETH LEOL

**Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol sy'n bennaf gyfrifol am berthynas Llywodraeth y Cynulliad â llywodraeth leol, gan gynnwys cyfeiriad ac amcanion strategol cyffredinol, cyllid, perfformiad a darparu gwasanaethau. Mae'n rhoi arweiniad hefyd ar berthynas Llywodraeth y Cynulliad â'r trydydd sector, y mae'n rhoi cymorth iddo. Mae hefyd yn ceisio diogelu a chefnogi pobl sy'n agored i niwed, brwydro yn erbyn allgáu cymdeithasol, lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cymunedau diogel a chynaliadwy.**

**Mae'r gyllideb ddrafft hon ar gyfer 2009-10 yn dyrannu £12.6m ychwanegol i TGA Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a £12.6m yn 2010-11, o gymharu â'r cynlluniau tair blynedd sydd wedi'u nodi yng nghyllideb derfynol 2008-09. Mae'n cynnwys:**

- **£10m ychwanegol yn 2009-10 a £10.5m yn 2010-11 i gefnogi gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol drwy Grant Cynnal Refeniw;**

- **£2m ychwanegol yn 2009-10 ac £1.2m yn 2010-11 i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.**

**Yn ogystal â Grant Cynnal Refeniw, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu lefel sylweddol (dros £650m) o grantiau refeniw o nifer o PGGau i awdurdodau lleol i helpu i weithredu gwasanaethau a mentrau penodol.**

## Meysydd Rhaglenni Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

### Refeniw Awdurdodau Lleol

Mae'r MRhG mawr hwn yn rhoi arian refeniw i awdurdodau lleol (gan gynnwys Awdurdodau Heddlu) nad yw wedi'i neilltuo, drwy'r Grant Cynnal Refeniw ar sail fformwla a rhai ffrydiau ariannu llai. Mae cymorth ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r Grant, cyfanswm o £10m yn 2009-10 a £10.5m yn 2010-11. O hwn, mae £3m yn 2009-10 a £6m yn 2010-11 o arian canlyniadol ar gyfer Cynllun Awdurdodau Lleol i Gymell Twf Busnesau yn Lloegr wedi'i ymgorffori yn y Grant. Yn ogystal â'r Grant, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu lefel sylweddol (dros £650m) o grantiau refeniw ar gyfer awdurdodau lleol i helpu i weithredu gwasanaethau a mentrau penodol.

### Y Swyddfa Brisio a Gwasanaethau Eraill Llywodraeth Leol

Mae'r MRhG hwn yn cefnogi gwasanaeth ardrethu a phrisio'r llywodraeth leol, ac yn rhoi arian ar gyfer nifer o wasanaethau a chyrff eraill llywodraeth leol. Mae £180k ychwanegol wedi'i ddyrannu yn 2009-10 a £176k yn 2010-11 yn dilyn trosglwyddo cyllid a chyfrifoldeb am waith arolygu budd-daliadau o Adran Gwaith a Phensiynau'r DU i Swyddfa Archwilio Cymru. Mae yna drosglwyddiadau amrywiol hefyd sy'n cynyddu cyllideb Gwariant Amrywiol Llywodraeth Leol er mwyn darparu pecyn cyllid ar gyfer system rheoli perfformiad a gwybodaeth Ffynnon.

### Cryfhau ac Adfywio Cymunedau (Refeniw)

Mae'r rhan fwyaf o'r MRhG hwn yn cefnogi gwaith adfywio a datblygu cymunedau, yn benodol drwy raglen Cymunedau yn Gyntaf, sy'n ceisio gwella amodau byw a rhagolygon pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Mae'r MRhG yn cynnwys arian ar gyfer mentrau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel eithrio ariannol a thlodi plant. Mae hefyd yn cynnwys materion cydlyniant cymunedol fel Sipsiwn-Teithwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid a Gweithwyr Mudol. Mae cyllidebau eraill yn rhoi cymorth i'r sector gwirfoddol/trydydd sector, mentrau gwirfoddoli a rhai cymdeithasol ac yn darparu mwy o gymorth i deuluoedd â phlant anabl. Hefyd mae £400k wedi'i drosglwyddo o gyllidebau eraill ar gyfer gwaith ar Sipsiwn-Teithwyr a Chydlyniant Cymunedol.

### Cymunedau Diogelach (Refeniw)

Mae hyn yn canolbwyntio ar greu cymunedau diogelach, yn benodol drwy amrywiaeth o fesurau i fynd i'r afael â phroblem camddefnyddio sylweddau a throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig, a lleihau cam-drin domestig. Mae'r MRhG hefyd yn darparu cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer mentrau penodol, â ffocws arbennig ar ddiogelwch cymunedol ac atal problemau. Bydd £2.024m yn ychwanegol yn 2009-10 ac £1.224m yn 2010-11 yn cynyddu nifer y canolfannau dadwenwyno cleifion mewnol a thriniaeth adsefydlu preswyl ar gyfer pobl sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol, ynghyd â nifer y cynghorwyr a hyfforddir mewn materion camddefnyddio sylweddau.

### Cyfalaf Awdurdodau Lleol

Mae'r MRhG hwn yn darparu arian cyfalaf cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn adfywio a buddsoddi.

### Cryfhau ac Adfywio Cymunedau (Cyfalaf)

Mae'r MRhG hwn yn darparu arian cyfalaf drwy nifer o gynlluniau grant i amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau cymunedol a gwirfoddol ac eraill er mwyn adfywio cymunedau. Mae cyllideb Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr wedi codi drwy drosglwyddo £1.5m ar gyfer darparu safleoedd Sipsiwn-Teithwyr newydd yng Nghymru. Ymhlith y trosglwyddiadau eraill mae cynnydd yn y gyllideb i fuddsoddi yn y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ar gyfer Cronfa Trosglwyddo Asedau.

### Cymunedau Diogelach (Cyfalaf)

Mae'r rhan fwyaf o'r MRhG hwn yn rhoi arian i'r Gwasanaeth Tân ac Achub at fentrau cyfalaf penodol fel Firelink a rhaglen chwistrellu ysgolion. Mae'r MRhG hwn yn darparu arian hefyd ar gyfer prosiectau cyfalaf camddefnyddio sylweddau a thrais domestig.

### Pensiynau'r Gwasanaeth Tân (GRF)

Mae'r gyllideb GRF hon yn cyllido costau cynllun pensiwn y Gwasanaeth Tân yng Nghymru.

## Tabl 3.1 Dyraniadau MRhG Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

| | £000s | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008-09 | | | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **TGA** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Refeniw Awdurdodau Leol | 4,070,01 | 0 | **4,070,013** | 4,189,32 | 0 | **4,189,321** | 4,318,52 | 0 | **4,318,529** |
| Y Swyddfa Brisio a Gwasanaethau Eraill Llywodraeth Leol | 20,155 | 0 | **20,155** | 24,097 | 0 | **24,097** | 23,843 | 0 | **23,843** |
| Cryfhau ac Adfywio Cymunedau | 60,472 | 22,448 | **82,920** | 65,759 | 23,948 | **89,707** | 66,081 | 23,948 | **90,029** |
| Cymunedau Diogelach | 38,324 | 17,640 | **55,964** | 44,148 | 14,640 | **58,788** | 38,748 | 20,240 | **58,988** |
| Cyfalaf Awdurdodau Lleol | 0 | 39,343 | **39,343** | 0 | 37,843 | **37,843** | | 37,843 | **37,843** |
| **CYFANSWM TGA** | **4,188,96** | **79,431** | **4,268,395** | **4,323,32** | **76,431** | **4,399,756** | **4,447,20** | **82,031** | **4,529,232** |
| **GRF** | | | | | | | | | |
| Pensiynau'r Gwasanaeth Tân | 14,436 | 0 | **14,436** | 13,025 | 0 | **13,025** | 13,583 | 0 | **13,583** |
| **CYFANSWM CGR** | **4,203,40** | **79,431** | **4,282,831** | **4,336,35** | **76,431** | **4,412,781** | **4,460,78** | **82,031** | **4,542,815** |

# 4 YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH

**Mae Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn ceisio creu economi fywiog yng Nghymru a gwneud iddi dyfu mewn ffordd gref a chynaliadwy, drwy roi cyfleoedd i bawb.**

**Gellir crynhoi'r prif heriau fel hyn:**

- **gwneud busnesau yng Nghymru a'r amgylchedd y maent yn gweithredu o'i fewn yn fwy cystadleuol, gan gynnwys y seilwaith ynni, trafnidiaeth a TGCh;**
- **mynd i'r afael â meysydd strategol i'w hadfywio ac anweithgarwch economaidd;**
- **diweddaru ac integreiddio'r seilwaith trafnidiaeth.**

**Mae'r gyllideb ddrafft hon ar gyfer 2009-10 yn dyrannu £17.7m ychwanegol i TGA yr Economi a Thrafnidiaeth yn 2009-10 a 2010-11 o gymharu â'r cynlluniau tair blynedd sydd wedi'u nodi yng nghyllideb derfynol 2008-09. Mae'n cynnwys:**

- **buddsoddiad £15m ychwanegol yn 2009-10 a 2010-11 i wella rhaglenni trafnidiaeth gyhoeddus a helpu i ddelio â'r pwysau parhaus ar gymorth rheilffyrdd Llywodraeth y Cynulliad (costau uwch masnachfreintiau rheilffyrdd, cynllun teithio rhatach a chymhorthdal gwasanaethau bws);**
- **£3m yn 2009-10 a 2010-11 ar gyfer gwell cefnogaeth i flaenoriaethau agendâu ymchwil a masnacheiddio.**

**Yn ogystal â'r £18m ychwanegol, ar gyfer 2009-10 mae'r Economi a Thrafnidiaeth wedi cynnal ymarfer ailflaenoriaethu cyllidebol i adlewyrchu'n well ei brif amcanion ac i gydnabod yr angen i wella gwasanaethau a'r pwysau acynyddol ar feysydd gwariant.**

### Meysydd Rhaglenni Gwariant yr Economi a Thrafnidiaeth

#### Cymorth Hyblyg i Fusnes

Mae Cymorth Hyblyg i Fusnes yn ceisio gwneud busnesau Cymru yn fwy cystadleuol drwy ei gwneud yn haws i gwsmeriaid gael cymorth effeithiol pan fo angen, er enghraifft dechrau busnes a'i ddatblygu, a thrwy sicrhau gwell cysylltiadau â maes Addysg Uwch. At hynny, bydd ein cymorth yn meithrin diwylliant allforio ac yn hybu mewnfuddsoddi. Mae'r MRhG hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at weithredu nifer o ymrwymiadau *Cymru'n Un*, yn benodol creu Cronfa Fuddsoddi ar gyfer cymorth busnes, gan gynnwys darparu ar gyfer menter gymdeithasol a chymhellion amgylcheddol.

Mae £3m ychwanegol wedi'i ddyrannu yng nghyllideb ddrafft 2009-10 ar gyfer prosiectau ymchwil a masnacheiddio. Gwelwyd y symudiadau canlynol hefyd fel rhan o'r broses ailflaenoriaethu fewnol: symudwyd £2m i MRhG Digwyddiadau Pwysig ar gyfer gweithgareddau marchnata; £2m i MRhG Seilwaith sy'n Gysylltiedig ag Eiddo ar gyfer ymrwymiadau refeniw eiddo ychwanegol; £2m ar gyfer ymrwymiadau ychwanegol o fewn MRhGydd Seilwaith a Pholisi TGCh, Datblygu Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol; a £3.3m i ariannu ymrwymiadau refeniw o fewn Trafnidiaeth, yn bennaf mewn perthynas â chostau cynyddol cymorth rheilffyrdd.

### Seilwaith sy'n Gysylltiedig ag Eiddo

Mae'r MRhG hwn yn cyfrannu at ymrwymiadau *Cymru'n Un* drwy hybu hinsawdd cadarnhaol ar gyfer twf busnesau. Mae'n gwneud hyn drwy sicrhau cyflenwad digonol a phriodol o safleoedd ac adeiladau. Mae'r gwariant hefyd yn ategu blaenoriaethau economaidd ehangach drwy wella seilwaith, eiddo cyflogwyr a thai fforddiadwy.

Darparwyd £2m ychwanegol o gyllid refeniw drwy'r ymarfer ailflaenoriaethu i gydnabod ymrwymiadau ychwanegol sy'n ymwneud â deddfwriaeth newydd mewn perthynas ag ardrethi eiddo gwag, taliadau rhent ychwanegol Partneriaethau Strategol Diwydiannol yng Nghymru a chostau ychwanegol o ran cynnal a chadw a diogelwch.

### Adfywio Strategol

Bydd ffocws strategol ar weithgareddau adfywio ledled Cymru yn sicrhau bod y MRhG hwn yn atgynhyrchu arferion gorau sy'n deillio o Raglen Blaenau'r Cymoedd a Mentrau Môn a Menai. Yn ogystal â mentrau adfywio mawr, mae'r MRhG yn cwmpasu gweithgareddau adnewyddu sy'n targedu trefi ac ardaloedd gwledig, a gwelliannau amgylcheddol i safleoedd ac eiddo. Mae'r MRhG hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at un o ymrwymiadau *Cymru'n Un*, sef gweithredu strategaeth marchnad lafur â nod hirdymor o gyflogaeth lawn i 80% o'r boblogaeth.

Fel rhan o'r broses o ailflaenoriaethu cyllidebol, mae £155k wedi'i drosglwyddo o'r MRhG hwn i helpu mewn mannau eraill o fewn y PGG sydd dan bwysau refeniw, er enghraifft y rhaglen drafnidiaeth leol o fewn MRhG Gwella Integreiddio a Darparu Trafnidiaeth Leol.

### Seilwaith TGCh

Bydd y cyllid yn darparu band eang ar lefel sylfaenol (cyflymder 512Kbs - 2MBps at y cwsmer) drwy brosiect Cymorth Band Eang Arloesol Rhanbarthol i'r rhannau hynny o Gymru nad ydynt yn gallu derbyn gwasanaethau band eang.

Darparwyd £785k ychwanegol drwy'r ymarfer ailflaenoriaethu ar gyfer y prosiect FibreSpeed.

## Digwyddiadau Mawr a Marchnata

Mae'r MRhG hwn yn cyfrannu at rai o ymrwymiadau *Cymru'n Un*, sef hyrwyddo cyfraniad Cymru ym maes chwaraeon gan adeiladu ar Gwpan Ryder, adeiladu ar waith i godi proffil rhyngwladol Cymru, a datblygu a hyrwyddo brand Cymru.

## Polisi, Datblygu Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol

Bydd y MRhG hwn yn hyrwyddo mentrau polisi a strategaeth i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n effeithio ar economi Cymru. Mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at ymrwymiadau canlynol *Cymru'n Un*, sef mabwysiadu dull i Gymru gyfan o ddatblygu'n economaidd, sicrhau buddsoddiad ym mhob rhanbarth o fewn fframwaith Cynllun Gofodol Cymru a datblygu strategaeth swyddi gwyrdd i Gymru gyfan. Hefyd, mae prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus yn cynnig ateb i hyn, sef un rhwydwaith ar gyfer Cymru gyfan.

Darparwyd mwy o arian drwy'r ymarfer ailflaenoriaethu cyllidebol ar gyfer cyfraniad yr Economi a Thrafnidiaeth i fenter Her Iechyd Cymru, Datblygu Polisi Strategaeth y Sector, Cymorth i Fforymau'r Sector, prosiectau Ymchwil a Gwerthuso a chyllid ar gyfer y Panel Cynghorol ar Ymchwil Economaidd.

## Arian Ewropeaidd

Mae hwn yn dangos sut y gweinyddir Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sy'n rheoli'r rhain ac maent yn perthyn i Adran yr Economi a Thrafnidiaeth.

Nodwyd gostyngiad bach o £85k yn y cymorth i'r rhaglenni er mwyn helpu mannau eraill o fewn y PGG sydd dan bwysau refeniw, er enghraifft, cost uwch cymorth refeniw bysus o fewn y MRhG Gwella Integreiddio a Darparu Trafnidiaeth Leol.

## Cynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd

Mae'r gwariant o dan y MRhG hwn yn hanfodol er mwyn cyflawni dyletswydd statudol Llywodraeth y Cynulliad i reoli, gweithredu a chynnal diogelwch y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd, gan roi ystyriaeth i anghenion a rhwymedigaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru.

Gwelwyd gostyngiad net o £11.1m fel rhan o'r broses o ailflaenoriaethu cyllidebol. Mae trosglwyddo wedi digwydd o fewn y Grŵp Trafnidiaeth i ymateb i'r pwysau ychwanegol i dalu am y taliad bonws am berfformiad Trenau Arriva Cymru a'r galw cynyddol gan awdurdodau lleol am brosiectau seilwaith trafnidiaeth lleol.

## Dibrisiant a Diffyg - Ffyrdd

Mae'r gyllideb hon, nad yw'n gyllideb arian parod, yn adlewyrchu costau traul y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd.

## Gwella'r Rhwydwaith Cefnffyrdd

Mae'r MRhG hwn yn ceisio gwella ac uwchraddio'r rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru mewn modd cynaliadwy. Mae'r gwariant yn talu am rai o

ymrwymiadau *Cymru'n Un*, sef datblygu rhaglen ar gyfer gwell ffyrdd a rheilffyrdd rhwng y De a'r Gogledd, a buddsoddi £50m i wella ffyrdd rhwng y Gogledd, y Gorllewin a'r De.

### Gwella Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr

Nod y MRhG hwn yw gwella a moderneiddio'r seilwaith rheilffyrdd, gwasanaethau trên a gwasanaethau awyr yng Nghymru. Mae'r gwariant yn talu am rai o ymrwymiadau *Cymru'n Un*, sef datblygu rhaglen i wella ffyrdd a rheilffyrdd rhwng y De a'r Gogledd, parhau i wneud gorsafoedd a phlatfformau yn fwy diogel, cyflwyno trenau newydd a gwasanaethau newydd, gwella trefniadau disgownt rheilffyrdd i bensiynwyr a datblygu cynllun i symud nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd.

Darparwyd arian ychwanegol o £8.5m drwy broses gynllunio gyllidebol Llywodraeth y Cynulliad ac £1.3m ychwanegol sy'n cael ei drosglwyddo i'r MRhG hwn drwy'r ymarfer ailflaenoriaethu. Y prif amcan wrth ddarparu hwn oedd helpu gyda chostau cynyddol taliadau perfformiad Trenau Arriva Cymru a gwella gwasanaethau rheilffyrdd fel trenau'r Cymoedd.

### Gwella Ffyrdd Lleol

Mae'r MRhG hwn yn helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i wella'r rhwydwaith ffyrdd lleol mewn ffordd gynaliadwy gan roi ystyriaeth i anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru.

### Gwella Integreiddio a Darparu Trafnidiaeth Leol

Mae cyllidebau cyfalaf, ar ffurf Grant Trafnidiaeth a delir i awdurdodau lleol, yn ariannu gwelliannau i seilweithiau trafnidiaeth leol gan gynnwys mesurau blaenoriaeth bysus, cyfnewidfeydd trafnidiaeth, cynlluniau parcio a theithio a gwybodaeth amser real i deithwyr. Mae arian refeniw yn hwyluso cynlluniau teithio am ddim ar fysus i bobl dros 60 ac i bobl anabl. Darperir cymorth pellach ar gyfer gwasanaethau sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol a thrwy ad-daliad treth tanwydd bysus a delir i gwmnïau bysus. Mae'r MRhG hwn yn delio â rhai o ymrwymiadau *Cymru'n Un,* sef cael rhwydwaith Traws Cambria i Gymru gyfan, integreiddio trenau a bysus drwy docynnau electronig erbyn 2011, a Phwyllgor Teithwyr Trafnidiaeth Genedlaethol i Gymru.

Mae £6.5m ychwanegol wedi'i ddarparu drwy gyllideb ddrafft 2009-10 ac mae £7.6m arall wedi'i ailflaenoriaethu ers y gyllideb derfynol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2008. Y prif reswm am hyn yw cyfrannu at gost gynyddol Teithio Rhatach a'r galw ychwanegol am brosiectau seilwaith trafnidiaeth leol.

### Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd

Mae'r MRhG hwn yn ymwneud â chymryd camau i gyrraedd targedau lleihau damweiniau ar ffyrdd y DU erbyn 2010. Mae'r cynlluniau a'r mentrau yn ariannu'r ymdrech i weithredu’r Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru ac yn cynnwys grantiau i awdurdodau lleol ar gyfer peirianneg diogelwch ar y ffyrdd, addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd, ynghyd â rhaglen ar gyfer cynlluniau gwella diogelwch lleol ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Mae'r MRhG hwn yn cynnwys un o ymrwymiadau *Cymru'n Un*, sef buddsoddi mewn trafnidiaeth gymunedol, beicio, llwybrau diogel i ysgolion a pharthau 20mya.

Mae £3m ychwanegol wedi'i ddarparu i'r MRhG hwn drwy'r ymarfer ailflaenoriaethu, yn bennaf i gydnabod costau uwch rhaglen sydd wedi'i blaenoriaethu o gynlluniau ailosod wyneb ffyrdd a chynlluniau diogelwch cymunedol a lleol.

### Gwella Ansawdd yr Amgylchedd Lleol

Mae'r MRhG hwn yn darparu arian ar gyfer cynlluniau i leihau effeithiau gormod o sŵn traffig o gefnffyrdd. Ategir hyn drwy gyflwyno dulliau sŵn isel o ailosod wyneb ffyrdd, neu rwystrau sŵn, neu gyfuniad o'r ddau.

Nodwyd gostyngiad bach o £0.6m i helpu mannau eraill o fewn y PGG sydd dan bwysau refeniw.

### Cefnogi Cerdded a Seiclo

Mae'r MRhG hwn yn dilyn Strategaeth Cerdded a Seiclo Llywodraeth y Cynulliad (2003) ac yn ymwneud â chynyddu nifer y bobl sy'n cerdded ac yn seiclo - yn enwedig ar gyfer teithiau byr - a thrwy hynny wella eu hiechyd a helpu'r amgylchedd. Mae'r gwariant yn talu am rai o ymrwymiadau *Cymru'n Un*, sef gwella a chysylltu llwybrau seiclo ar lefel Cymru gyfan a buddsoddi mewn trafnidiaeth gymunedol, seiclo, llwybrau diogel i ysgolion a pharthau 20mya.

Trosglwyddwyd £3.3m i'r MRhG hwn drwy'r ymarfer ailflaenoriaethu i gynnal y gyllideb ar lefel sy'n gyson â'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer ymrwymiadau Gweinidogol blaenorol ar lwybrau diogel mewn cymunedau.

### Tabl 4.1 Dyraniadau MRhG yr Economi a Thrafnidiaeth

| | £000s | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008-09 | | | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **TGA - Strwythur Newydd** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Cymorth Hyblyg i Fusnes | 59,289 | 85,013 | **144,302** | 60,185 | 85,284 | **145,469** | 58,849 | 85,285 | **144,134** |
| Seilwaith sy'n gysylltiedig ag eiddo | 41,748 | 22,045 | **63,793** | 41,499 | 22,026 | **63,525** | 41,261 | 22,116 | **63,377** |
| Adfywio Strategol | 10,699 | 55,101 | **65,800** | 12,697 | 53,272 | **65,969** | 12,718 | 53,272 | **65,990** |
| Seilwaith TGCh | 1,580 | 14,953 | **16,533** | 2,365 | 3,191 | **5,556** | 2,367 | 3,191 | **5,558** |
| Digwyddiadau Mawr a Marchnata | 8,476 | 400 | **8,876** | 8,390 | 400 | **8,790** | 8,328 | 400 | **8,728** |
| Polisi, Datblygu Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol | 16,930 | 540 | **17,470** | 15,837 | 540 | **16,377** | 15,226 | 540 | **15,766** |
| Arian Ewropeaidd | 1,375 | 1,500 | **2,875** | 1,283 | 0 | **1,283** | 1,290 | 0 | **1,290** |
| Cynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd | 52,201 | 29,656 | **81,857** | 52,606 | 32,273 | **84,879** | 52,849 | 33,272 | **86,121** |
| Dibrisiant a Diffyg - Ffyrdd | 250,168 | 0 | **250,168** | 250,168 | 0 | **250,168** | 250,168 | 0 | **250,168** |
| Gwella'r Rhwydwaith Cefnffyrdd | 600 | 76,205 | **76,805** | 601 | 90,265 | **90,866** | 603 | 90,265 | **90,868** |
| Gwella Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | 159,417 | 28,372 | **187,789** | 171,811 | 28,480 | **200,291** | 180,608 | 28,480 | **209,088** |
| Gwella Ffyrdd Lleol | 0 | 100,192 | **100,192** | 0 | 100,515 | **100,515** | 0 | 100,515 | **100,515** |
| Gwella Integreiddio a Darparu Trafnidiaeth Leol | 82,745 | 25,034 | **107,779** | 97,346 | 21,599 | **118,945** | 100,916 | 21,599 | **122,515** |
| Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd | 7,057 | 17,207 | **24,264** | 7,056 | 17,252 | **24,308** | 7,068 | 17,252 | **24,320** |
| Gwella Ansawdd yr Amgylchedd Lleol | 0 | 1,000 | **1,000** | 0 | 1,005 | **1,005** | 0 | 1,005 | **1,005** |
| Cefnogi Cerdded a Seiclo | 0 | 11,277 | **11,277** | 0 | 11,303 | **11,303** | 0 | 11,303 | **11,303** |
| **CYFANSWM TGA** | **692,285** | **468,495** | **1,160,780** | **721,844** | **467,405** | **1,189,249** | **732,251** | **468,495** | **1,200,746** |
| **GRF** | | | | | | | | | |
| Cynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd | 380,000 | 0 | **380,000** | 430,795 | 0 | **430,795** | 449,524 | 0 | **449,524** |
| **CYFANSWM CGR** | **1,072,285** | **468,495** | **1,540,780** | **1,152,639** | **467,405** | **1,620,044** | **1,181,775** | **468,495** | **1,650,270** |

*Noder: mae ffigur refeniw 2008-09 ar gyfer Polisi, Datblygu Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol wedi'i ostwng £350k er mwyn ystyried swm a drosglwyddir i PGG PADGOS. Caiff hyn ei ffurfioli gan gyllideb atodol maes o law.*

# 5 PLANT, ADDYSG, DYSGU GYDOL OES A SGILIAU

**Nod yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (PADGOS) yw gwella gwasanaethau plant, addysg a hyfforddiant i sicrhau gwell canlyniadau i ddysgwyr, busnesau a chyflogwyr fel sydd wedi'i nodi yn strategaeth *'Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'*. Mae hefyd yn grymuso plant, pobl ifanc ac oedolion drwy addysg a hyfforddiant i fwynhau bywyd o ansawdd gwell.**

**Mae'r gyllideb ddrafft hon ar gyfer 2009-10 yn dyrannu £29.1m ychwanegol i TGA PADGOS yn 2009-10 a £46.1m yn 2010-11 o gymharu â'r cynlluniau tair blynedd sydd wedi'u nodi yng nghyllideb derfynol 2008-09. Mae'n cynnwys:**

- **£20m ychwanegol yn 2009-10 a £40m yn 2010-11 i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen;**
- **£5m ychwanegol yn 2009-10 a 2010-11 i gefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau allweddol *Cymru'n Un*, gan gynnwys bagloriaeth ar sail ehangach, ymgorffori cyfleoedd dysgu galwedigaethol ac academaidd; yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb; datblygu strwythur gyrfa ar gyfer staff cymorth ysgolion; a datblygu strategaeth genedlaethol cyfrwng Cymraeg i ddatblygu darpariaeth effeithiol o'r ysgol feithrin i addysg bellach ac uwch, gan gynnwys rhaglen weithredu;**
- **£3.8m ychwanegol o arian cyfalaf yn 2009-10 a £0.8m o arian cyfalaf yn 2010-11 i gefnogi'r gwaith o uno Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd â Phrifysgolion Aberystwyth a Bangor.**

**Yn ogystal, mae APADGOS wedi ailflaenoriaethu adnoddau o fewn y PGG i ddarparu arian ychwanegol i gefnogi argymhellion *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, gan gynnwys yr agenda gweddnewid i gefnogi pontio o fewn y Ddarpariaeth i Ddysgwyr. Hefyd, mae arian ychwanegol ac ailflaenoriaethu adnoddau presennol o fewn y PGG yn golygu bod adnoddau ychwanegol i gefnogi ymgyrch *Plant Anabl yn Cyfri* i ddatblygu cyfleusterau chwarae haws eu defnyddio a gwella gwasanaethau i blant anabl.**

## Meysydd Rhaglenni Gwariant Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

### Sylfeini a Chyfleoedd Llwyddiannus

Mae'r MRhG hwn yn cefnogi:

- hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc drwy roi cymorth i'w helpu i gyflawni eu potensial llawn;
- hyrwyddo manteision addysg ffurfiol, dysgu anffurfiol ac addysg sydd heb fod yn ffurfiol;
- hawliau plant a phobl ifanc.

Rhyddhawyd arian ychwanegol i gefnogi rhai o argymhellion yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb ac ymrwymiad *Cymru'n Un* i ymchwilio i achosion o ymddieithrio oddi wrth ddysgu ymhlith plant a phobl ifanc. Yn gysylltiedig â hyn, mae cyllid wedi'i ddarparu hefyd i gefnogi datblygu Ymestyn Hawliau, Gweithredu'r Hawliau ac yn benodol yr agenda i annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn ogystal ag i gefnogi a datblygu cynghorau ysgol. Bydd adnoddau ychwanegol o fewn y MRhG hwn yn datblygu ymhellach gyfleusterau chwarae mwy hwylus i blant anabl a rhai addasiadau pellach, i sicrhau bod y dyraniadau presennol yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i wella gwasanaethau i blant anabl.

Gwnaed rhai addasiadau technegol hefyd o fewn y MRhG hwn er mwyn adlewyrchu’n well y newidiadau a wnaed i drefniadaeth yr Adran ers Ebrill 2008. Mae hyn yn cynnwys symud Llinell Wariant Cyllideb Gyrfa Cymru i MRhG Sgiliau ar gyfer Cymru Ffyniannus a chyfuno Llinell Wariant Cyllideb Bwyd mewn Ysgolion â Llinell Wariant Cyllideb Safonau Maeth mewn Ysgolion.

### Cyrhaeddiad Dysgwyr

Mae’r MRhG hwn yn cynnwys arian ar gyfer:

- gwell canlyniadau i ddysgwyr a lles drwy gwricwlwm ysgolion ar sail sgiliau a threfniadau asesu cysylltiedig;
- diwygio cymwysterau pob oed a datblygiadau fframwaith credydau;
- ffocws ar effeithiolrwydd ysgolion;
- datblygu ymarferwyr yn broffesiynol.

Mae rhaglen y Cyfnod Sylfaen yn gweddnewid y maes yn llwyr. Bydd yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cymorth gorau posibl yn ystod blynyddoedd cynnar hanfodol eu haddysg. Yn dilyn modelu ystadegol ac ariannol helaeth, rydym wedi darparu £20m ychwanegol yn 2009-10 a £40m yn 2010-11 i gefnogi’r gwaith o gyflwyno a chynnal y rhaglen. Yn ogystal, mae tua £1.5m wedi’i ddyrannu i gefnogi’r gwaith o ailgyflunio Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon, ac mae £500k arall wedi’i ryddhau yn ystod y ddwy flynedd i gefnogi gweithredu’r Fagloriaeth Gymreig.

Yn sgil ailflaenoriaethu gweithgareddau yn Llinell Wariant Cyllideb y Cwricwlwm a Chymwysterau, rhyddhawyd £1m yn 2009-10 a 2010-11 i gefnogi mannau eraill sydd dan bwysau ledled PGG PADGOS. Gwnaed addasiad technegol i’r Llinell Wariant hon yn y Gyllideb hefyd er mwyn

cyfuno'r arian ar gyfer Techniquest â Llinell Wariant Cyllideb Cefnogaeth i Wella Safonau gan fod peth cyllid hefyd yn cael ei gynnig i Techniquest o honno, a bydd hyn yn helpu'r gwaith rheoli ariannol yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn sefydlu Uned Iaith o fewn yr Adran o Ebrill 2008, mae addasiad arall wedi'i wneud i adlewyrchu'r ffaith bod y strwythur rheoli newydd yn trosglwyddo arian o Linell Wariant Cyllideb Buddsoddi Strategol o fewn MRhG Seilwaith ac Ailgyflunio.

### Sgiliau ar gyfer Cymru Ffyniannus

Mae'r MRhG hwn yn cynnwys arian ar gyfer:

- arwain cyfraniad y system addysg a hyfforddiant ôl-16 i greu poblogaeth sydd wedi'i haddysgu i lefel uchel;
- Cymru â lefel sgiliau uchel, lefel cyflogaeth uchel drwy nodi a blaenoriaethu anghenion cyflogwyr, dysgwyr a chymunedau o ran gwybodaeth a sgiliau;
- annog sefydliadau addysg a hyfforddiant i fod yn hyblyg ac o ansawdd uchel, ac ymateb i anghenion cenedlaethol a lleol.

Mae cyllideb Darpariaeth Dysgwyr yn cynnig arian o'r brif ffrwd ar gyfer rhaglenni dysgu ôl-16 a ddarperir gan ddosbarthiadau chwech ysgolion, colegau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol i oedolion. Mae hon wedi'i chynyddu drwy ailalinio cyllidebau eraill o fewn y PGG lle mae gweithgarwch yn symud yn arafach nag a ragwelwyd er mewn cefnogi agenda Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru. Gwelwyd nifer o addasiadau technegol llai o fewn y MRhG hwn eto i ailalinio blaenoriaethau gyda phwyslais penodol ar ddarparu cyllid ar gyfer Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru. Mae cyllid Gyrfa Cymru wedi'i symud i'r Llinell Wariant hon yn y Gyllideb er mwyn adlewyrchu'n well Strwythur Rheoli diwygiedig yr Adran ers Ebrill 2008.

### Mynediad a Chyrhaeddiad i Bawb

Nod y MRhG hwn yw:

- hyrwyddo cynhwysiant, lleihau anfantais a mynd i'r afael â diffyg cyfle addysgol;
- mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr o bob oed gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a materion cynhwysiant;
- rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr a dysgwyr eraill mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

Gwnaed nifer fawr o addasiadau technegol i'r Llinell Wariant hon yn y Gyllideb er mwyn helpu i reoli cyllidebau Cyllid Myfyrwyr sy'n ymateb i'r galw. Hefyd mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu na fu'r galw ar y lefel a ragwelwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi'i gwneud yn bosibl ailflaenoriaethu rhai o'r llinellau cyllidebol hyn i roi cymorth ychwanegol i MRhG Sgiliau ar gyfer Cymru Ffyniannus.

### Seilwaith ac Ailgyflunio

Mae'r MRhG hwn yn canolbwyntio ar:

- hyrwyddo effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr adran, gwerth am arian a gwell canlyniadau, gan sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o adnoddau

cyfyngedig drwy ddefnyddio data a gwybodaeth mewn ffordd well, a ffrydiau a mecanweithiau ariannu;

- diogelu ysgolion a chyfleusterau addysgol eraill i ddisgyblion cyn-16 ac ôl-16 sy'n cael cymorth ac sy'n cael eu hariannu'n briodol, yn derbyn cymorth TGCh priodol, sy'n addas i'r diben ac sy'n cael eu defnyddio fwyfwy fel adnodd cymunedol.

Y newid mawr i'r MRhG hwn yw ychwanegu tua £4.5m o gyfalaf yn ystod 2009-10 a 2010-11 i gefnogi'r gwaith o uno'r Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd â Phrifysgolion Aberystwyth a Bangor. Bydd hyn yn creu capasiti mawr ar gyfer ymchwil a seilwaith i greu canolfan ragoriaeth i Gymru a'r DU ym maes gwyddoniaeth fiolegol, amgylcheddol a gwledig, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio tir cynaliadwy, cynhyrchu bwyd, iechyd a bio-ynni.

### Tabl 5.1 – Dyraniadau MRhG Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

| | £000s | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008-09 | | | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **TGA** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Sylfeini a Chyfleoedd Llwyddiannus | 176,346 | 0 | **176,346** | 144,095 | 0 | **144,095** | 137,340 | 0 | **137,340** |
| Cyrhaeddiad Dysgwyr | 123,411 | 0 | **123,411** | 156,961 | 0 | **156,961** | 175,160 | 0 | **175,160** |
| Sgiliau ar gyfer Cymru Ffyniannus | 908,483 | 0 | **908,483** | 986,736 | 0 | **986,736** | 1,010,984 | 0 | **1,010,984** |
| Mynediad a Chyrhaeddiad i Bawb | 298,245 | 0 | **298,245** | 307,615 | 0 | **307,615** | 317,513 | 0 | **317,513** |
| Seilwaith ac Ailgyflunio | 47,503 | 223,881 | **271,384** | 53,057 | 227,641 | **280,698** | 53,444 | 225,711 | **279,155** |
| **CYFANSWM TGA** | **1,553,988** | **223,881** | **1,777,869** | **1,648,464** | **227,641** | **1,876,105** | **1,694,441** | **225,711** | **1,920,152** |
| **GRF** | | | | | | | | | |
| Mynediad a Chyrhaeddiad i Bawb | 0 | 170,994 | **170,994** | 0 | 163,660 | **163,660** | 0 | 174,266 | **174,266** |
| **CYFANSWM CGR** | **1,553,988** | **394,875** | **1,948,863** | **1,648,464** | **391,301** | **2,039,765** | **1,694,441** | **399,977** | **2,094,418** |

*Noder: yn ogystal â chynnwys arian newydd, mae dyraniadau'r MRhG ar gyfer 2009-10 a 2010-11 yn adlewyrchu ailflaenoriaethu adnoddau presennol y PGG.*

# 6 YR AMGYLCHEDD, CYNALIADWYEDD A THAI

**Mae Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn arwain ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys newid hinsawdd, cynaliadwyedd, diogelu'r amgylchedd, llifogydd, cynllunio a thai.**

**Mae'r gyllideb ddrafft hon ar gyfer 2009-10 yn dyrannu £3.8m ychwanegol i TGA yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn 2009-10 a £5.0m yn 2010-11 o gymharu â'r cynlluniau tair blynedd sydd wedi'u nodi yng nghyllideb derfynol 2008-09. Mae'n cynnwys:**

- **£1.8m ychwanegol yn 2009-10 a £3.0m yn 2010-11 i helpu i wella'r system rheoli risg rhag llifogydd yng Nghymru;**
- **£2.0m ychwanegol yn 2009-10 a 2010-11 i gefnogi pecyn mesurau sy'n hyrwyddo effeithlonrwydd ynni.**

**Trosglwyddir £207k i PGG Materion Gwledig yn unol â'r ailddyrannu cyfrifoldebau yn dilyn Etholiadau Llywodraeth y Cynulliad 2007.**

## Meysydd Rhaglenni Gwariant yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Gwella Tai
Mae'n cynnwys grantiau cyfalaf i awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynnal a gwella stoc tai cymdeithasol, ac arian ar gyfer ardaloedd sydd i'w hadnewyddu, ymddiriedolaethau tir cymunedol a'r Asiantaeth Gwella Cartrefi a'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Ymhlith yr amcanion allweddol mae sicrhau bod tai cymdeithasol yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012. Mae £2m ychwanegol wedi'i ddyrannu yn 2009-10 a 2010-11 i gefnogi effeithlonrwydd ynni.

### Tai Newydd
Arian cyfalaf ar gyfer tai cymdeithasol newydd a grantiau ar gyfer pobl sy'n prynu am y tro cyntaf. Ymhlith y prif amcanion mae rhai o ymrwymiadau *Cymru'n Un,* sef darparu 6,500 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol erbyn 2011 a'i gwneud yn haws i bobl gael gafael arnynt.

### Cymorth i Bobl sy'n Agored i Niwed/sydd mewn Perygl
Mae'n helpu pobl sy'n agored i niwed i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain ac yn darparu llety â chymorth gan gynnwys Cartrefi Nyrsio Di-elw. Mae'n cyfrannu at weithredu Ymrwymiad *Cymru'n Un* o ran cefnogi gofal cymdeithasol.

### Strategaeth Wastraff
Mae'n ceisio cyrraedd targedau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer lleihau gwastraff, cynyddu cyfraddau ailgylchu a lleihau tirlenwi, er mwyn cyflawni ymrwymiadau *Cymru'n Un* i wella'r amgylchedd lleol.

**Llifogydd a Dŵr**
Rheoli risg llifogydd, gan gynnwys grantiau i awdurdodau lleol ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd ac arian ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd, a materion yn ymwneud â dŵr. Mae £1.8m ychwanegol wedi'i ddyrannu yn 2009-10 a £3m yn 2010-11 tuag at wella'r system rheoli risg llifogydd yng Nghymru.

**Cynllunio**
Datblygu a gweithredu'r system gynllunio yng Nghymru i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwaith achos apelau, cyhoeddi dogfennau cynllunio, arian ar gyfer Comisiwn Dylunio Cymru, Cymorth Cynllunio Cymru, awdurdodau cynllunio lleol ac ymchwil cynllunio.

**Amgylchedd Cynaliadwy**
Mynd i'r afael â newid hinsawdd, diogelu'r amgylchedd a gwella cynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys Strategaeth Ynni, Effeithlonrwydd Ynni, microgynhyrchu, apelau amgylcheddol, Ymddiriedolaeth Garbon a Datblygu Cynaliadwy. Cefnogi ymrwymiad *Cymru'n Un* sy'n ceisio cyrraedd lefel o leihau allyriadau carbon blynyddol 3% y flwyddyn erbyn 2011 mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

**Partneriaid Gweithredu**
Arian ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae'n cynnwys gweithredu rhaglen mynediad i gefn gwlad Llywodraeth y Cynulliad a llwybr arfordirol i Gymru gyfan.

## Tabl 6.1 Dyraniadau MRhG yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

| | £000s | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008-09 | | | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **TGA** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Gwella Tai | 8,398 | 234,141 | **242,539** | 10,723 | 233,841 | **244,564** | 11,723 | 233,841 | **245,564** |
| Tai Newydd | 0 | 103,400 | **103,400** | 0 | 103,400 | **103,400** | 0 | 103,400 | **103,400** |
| Cymorth i Bobl sy'n Agored i Niwed/sydd mewn Perygl | 139,919 | 8,000 | **147,919** | 144,746 | 12,000 | **156,746** | 149,692 | 10,000 | **159,692** |
| Strategaeth Wastraff | 67,500 | 12,200 | **79,700** | 75,400 | 12,200 | **87,600** | 88,400 | 12,200 | **100,600** |
| Llifogydd a Dŵr | 16,776 | 21,030 | **37,806** | 18,576 | 21,330 | **39,906** | 19,776 | 21,330 | **41,106** |
| Cynllunio | 5,911 | 0 | **5,911** | 7,641 | 0 | **7,641** | 7,761 | 0 | **7,761** |
| Amgylchedd Cynaliadwy | 18,350 | 18,335 | **36,685** | 18,599 | 18,335 | **36,934** | 20,099 | 18,335 | **38,434** |
| Partneriaid Gweithredu | 74,478 | 6,259 | **80,737** | 74,548 | 6,259 | **80,807** | 74,544 | 6,259 | **80,803** |
| **CYFANSWM TGA** | **331,332** | **403,365** | **734,697** | **350,233** | **407,365** | **757,598** | **371,995** | **405,365** | **777,360** |
| **GRF** | | | | | | | | | |
| Gwella Tai | - 46,000 | 0 | **- 46,000** | - 75,000 | 0 | **- 75,000** | - 56,000 | 0 | **- 56,000** |
| **CYFANSWM CGR** | **285,332** | **403,365** | **688,697** | **275,233** | **407,365** | **682,598** | **315,995** | **405,365** | **721,360** |

# 7 MATERION GWLEDIG

**Mae'r Adran Materion Gwledig yn cefnogi diwydiannau ffermio, bwyd, pysgota a choetiroedd yng Nghymru er mwyn iddynt fod yn fwy cynaliadwy ac mae'n cynnig cymorth ar draws Llywodraeth y Cynulliad ar faterion cefn gwlad ehangach. Mae'n cefnogi hefyd y gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi cynaliadwy gwerth ychwanegol gan ddefnyddio cynnyrch sylfaenol y diwydiannau ffermio, pysgota a choetiroedd, hyrwyddo iechyd a lles anifeiliaid, hyrwyddo arferion amgylcheddol da a rheoli tir yn gadarn, a diogelu'r amgylchedd naturiol. Mae hefyd yn cyfrannu at weithredu ym maes newid hinsawdd.**

**Mae'r gyllideb ddrafft hon yn dyrannu £2.2m ychwanegol i TGA Materion Gwledig yn 2009-10 a 2010-11 o gymharu â'r cynlluniau tair blynedd sydd wedi'u nodi yng nghyllideb derfynol 2008-09. Mae'n cynnwys:**

- **£2m ychwanegol yn 2009-10 a 2010-11 i dalu cost uwch cyfalaf a chostau dibrisiant ar gyfer y Comisiwn Coedwigaeth.**

**Ni welwyd unrhyw ailflaenoriaethu mawr ar y cynlluniau gwario o fewn Materion Gwledig. Y prif newid i'r gyllideb flaenorol yw ailstrwythuro'r PGG i dynnu ynghyd yr holl wariant ar y Cynllun Datblygu Gwledig newydd yn un maes rhaglen wariant.**

### Meysydd Rhaglenni Gwariant Materion Gwledig

#### Rheoli Clefydau Anifeiliaid a'u Lles

Mae'r MRhG hwn yn cynnwys arian ar gyfer lles anifeiliaid a thrin clefydau fel y tafod glas, taliadau iawndal TB mewn gwartheg a chyflawni ymrwymiad *Cymru'n Un* i ddilyn rhaglen Dileu TB mewn Gwartheg.

#### Gwariant ar Ddatblygu Gwledig – yr UE a'r DU

Mae'r MRhG newydd ar Wariant ar Ddatblygu Gwledig yn tynnu ynghyd yr holl wariant ar y Cynllun Datblygu Gwledig i un rhan o'r PGG bellach. Mae'n cefnogi gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru ar gyfer 2007-13 (gan gynnwys Bwyd-amaeth a Chyswllt Ffermio, Amaeth-amgylchedd a Rheoli Tir, ac Adfywio Cymunedol Gwledig).

#### Cynllun y Taliad Sengl

I raddau helaeth, taliadau sengl yw'r MRhG hwn, sy'n cael ei ariannu'n llawn gan yr Undeb Ewropeaidd.

### Bwyd, Pysgodfeydd a’r Amgylchedd

Elfennau o’r hen MRhG ar Economi a Chymunedau Gwledig Cynaliadwy yw’r MRhG newydd ar Fwyd, Pysgodfeydd a’r Amgylchedd. Ei nod yw hyrwyddo ac ehangu diwydiant bwyd-amaeth Cymru. Mae’n cynnwys hefyd gymorth i’r diwydiant pysgodfeydd, ac ymchwilio i gynlluniau presennol ac arfaethedig o fewn Materion Gwledig a’u gwerthuso.

### Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Mae’r MRhG hwn yn ariannu gwaith Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

### Tabl 7.1 Dyraniadau MRhG Materion Gwledig

| | £000s | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008-09 | | | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **TGA** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Rheoli Clefydau Anifeiliaid a'u Lles | 18,949 | 0 | **18,949** | 22,483 | 0 | **22,483** | 24,583 | 0 | **24,583** |
| Gwariant ar Ddatblygu Gwledig – yr UE a'r DU | 58,106 | 15,279 | **73,385** | 60,606 | 16,179 | **76,785** | 62,335 | 16,179 | **78,514** |
| Cynllun y Taliad Sengl | 10,946 | 0 | **10,946** | 9,421 | 0 | **9,421** | 7,066 | 0 | **7,066** |
| Bwyd, Pysgodfeydd a'r Amgylchedd | 10,628 | 2,462 | **13,090** | 9,129 | 1,562 | **10,691** | 11,274 | 1,562 | **12,836** |
| Comisiwn Coedwigaeth Cymru | 31,196 | - 205 | **30,991** | 33,196 | - 205 | **32,991** | 33,196 | - 205 | **32,991** |
| **CYFANSWM CGR** | **129,825** | **17,536** | **147,361** | **134,835** | **17,536** | **152,371** | **138,454** | **17,536** | **155,990** |

*Noder: mae ffigurau 2008-09 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu strwythur newydd PGG Materion Gwledig. Caiff yr adolygiad hwn ei ffurfioli drwy gyllideb atodol maes o law.*

# 8 TREFTADAETH

**Nod yr Adran Dreftadaeth yw ei gwneud yn haws i bawb fwynhau'r celfyddydau a diwylliant, annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gwneud ymarfer corff, a chreu Cymru ddwyieithog a chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd. Mae'r Adran hefyd yn gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru, yn ei ddiogelu, yn ei gynnal ac yn hyrwyddo mynediad i fwy o bobl iddo. Mae'n creu llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau ar gyfer y 21ain ganrif ac mae'n hyrwyddo ac yn datblygu twristiaeth yng Nghymru.**

**Mae'r gyllideb ddrafft hon ar gyfer 2009-10 yn dyrannu £1.0m ychwanegol i TGA Treftadaeth yn 2009-10 a 2010-11 o gymharu â'r cynlluniau tair blynedd sydd wedi'u nodi yng nghyllideb derfynol 2008-09. Mae'n cynnwys:**

- **cyllid ychwanegol ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Cymru i ategu costau rhedeg;**
- **arian i gefnogi'r Gemau Ysgol a gaiff eu cynnal yng Nghymru yn 2009;**
- **cymorth ychwanegol ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg.**

## Meysydd Rhaglenni Gwariant Treftadaeth

### Diwylliant
Mae'r MRhG Diwylliant yn cefnogi'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, gan gynnwys arian ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Gerddi Botaneg Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru. Mae'n cynnwys hefyd arian ar gyfer CyMAL a llyfrgelloedd lleol a'r Gronfa Ddiwylliant. Mae £450k ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r MRhG hwn yn y gyllideb ddrafft i ategu'r costau rhedeg, ynghyd â £45k ychwanegol i Gyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi eu symud. Mae £405k yn ychwanegol wedi'i ddyrannu i Linell Wariant Cyllideb y Gronfa Ddiwylliant i helpu i dalu'r £500k am gynnal y gemau ysgol yng Nghymru yn 2009, gyda'r gweddill yn cael ei ariannu drwy ailflaenoriaethu o fewn cyllidebau eraill.

### Chwaraeon a Gweithgareddau Egnïol Cymru
Mae'r MRhG hwn yn cefnogi gweithredu Strategaeth Dringo'n Uwch Llywodraeth y Cynulliad ac yn rhoi arian i Gyngor Chwaraeon Cymru.

### Cymru Ddwyieithog
Mae'r MRhG hwn yn cynnwys cymorth i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chronfa Cymru Ddwyieithog. Mae £100k arall wedi'i ddyrannu i'r MRhG hwn i gefnogi Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

### Cymru Hanesyddol

Mae MRhG Cymru Hanesyddol yn ariannu gwariant Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth y Cynulliad) a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

### Twristiaeth

Mae'r MRhG hwn yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo a marchnata Cymru fel cyrchfan i dwristiaid yn y DU a thramor, a hyrwyddo twristiaeth ar lefel Cymru gyfan drwy'r pedwar Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol.

### Tabl 8.1 Dyraniadau MRhG Treftadaeth

| | £000s | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008-09 | | | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **TGA** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Diwylliant | 83,051 | 7,742 | **90,793** | 86,067 | 9,042 | **95,109** | 86,673 | 8,596 | **95,269** |
| Chwaraeon a Gweithgareddau Egnïol Cymru | 24,848 | 1,170 | **26,018** | 27,127 | 1,170 | **28,297** | 27,806 | 1,170 | **28,976** |
| Cymru Ddwyieithog | 13,501 | 100 | **13,601** | 13,681 | 100 | **13,781** | 13,761 | 100 | **13,861** |
| Cymru Hanesyddol | 6,665 | 5,985 | **12,650** | 5,757 | 5,985 | **11,742** | 5,737 | 5,985 | **11,722** |
| Twristiaeth | 12,564 | 0 | **12,564** | 12,534 | 0 | **12,534** | 12,530 | 0 | **12,530** |
| **CYFANSWM TGA** | **140,629** | **14,997** | **155,626** | **145,166** | **16,297** | **161,463** | **146,507** | **15,851** | **162,358** |
| **GRF** | | | | | | | | | |
| Diwylliant | 15,256 | 0 | **15,256** | 16,024 | 0 | **16,024** | 16,024 | 0 | **16,024** |
| **CYFANSWM CGR** | **155,885** | **14,997** | **170,882** | **161,190** | **16,297** | **177,487** | **162,531** | **15,851** | **178,382** |

# 9 GWASANAETHAU CYHOEDDUS A PHERFFORMIAD

**Nod yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yw hyrwyddo cydweithredu fel sail i wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn cydymffurfio â gofynion *Cymru'n Un* a *Cyflawni Ar Draws Ffiniau.* Mae'r Adran yn cefnogi hefyd yr Arolygiaethau ar gyfer Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gofal Iechyd, ac Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.**

**Mae'r gyllideb ddrafft hon ar gyfer 2009-10 yn trosglwyddo £0.3m o TGA Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn 2009-10 a 2010-11 o gymharu â'r cynlluniau tair blynedd sydd wedi'u nodi yng nghyllideb derfynol 2008-09. Mae'n cynnwys:**

- **trosglwyddo £0.17m i PGG Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn 2009-10 a £0.15m yn 2010-11;**
- **trosglwyddo £0.16m i PGG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn 2009-10 a 2010-11.**

## Meysydd Rhaglenni Gwariant Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad

### Arolygiaethau
Cymorth gyda chostau gweinyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

### Estyn
MRhG refeniw a chyfalaf yn darparu cymorth ar gyfer Estyn, Swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru.

### Creu'r Cysylltiadau
Mae'n ariannu amrywiaeth o fentrau i arwain a chefnogi'r agenda newid ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, drwy Gronfeydd Gwella a Datblygu Creu'r Cysylltiadau. Mae'r MRhG yn ariannu hefyd Reoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru, sy'n rhoi cyfleoedd â'r nod o ddatblygu pobl, sefydliadau a systemau o fewn y gwasanaeth cyhoeddus, a Gwerth Cymru sy'n darparu arweiniad, cyfeiriad strategol, hyfforddiant a chanllawiau i helpu sefydliadau i wneud gwelliannau cynaliadwy ym maes caffael.

### Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Mae'n ariannu rhaglenni gwaith penodol i gefnogi AGGCC gan gynnwys gwell arferion rheoli perfformiad, hyfforddi a datblygu'r gweithlu a gweithgareddau arolygu ar y cyd.

## Tabl 9.1 Dyraniadau MRhG Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad

| | £000s | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008-09 | | | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **TGA** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Arolygiaethau | 17,129 | 0 | **17,129** | 17,647 | 0 | **17,647** | 18,099 | 0 | **18,099** |
| Estyn | 14,168 | 445 | **14,613** | 14,592 | 445 | **15,037** | 14,555 | 445 | **15,000** |
| Creu'r Cysylltiadau | 12,779 | 0 | **12,779** | 10,986 | 0 | **10,986** | 10,977 | 0 | **10,977** |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 14,975 | 0 | **14,975** | 15,790 | 0 | **15,790** | 15,750 | 0 | **15,750** |
| **CYFANSWM CGR** | **59,051** | **445** | **59,496** | **59,015** | **445** | **59,460** | **59,381** | **445** | **59,826** |

# 10 GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU

**PGG newydd yw PGG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Unwyd PGG Gweinyddu Canolog, PGG y Gwasanaethau Gweinidogol Eraill a PGG Arian Cyfatebol. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o raglenni, gan gynnwys costau gweinyddu a gwasanaethau canolog Llywodraeth y Cynulliad, gwasanaethau i Weinidogion a'r Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir sy'n cefnogi prosiectau Cronfeydd Strwythurol yr UE.**

**Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2009-10 yn dyrannu £11.9m ychwanegol i TGA Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn 2009-10 ac £11.9m yn 2010-11 o gymharu â'r cynlluniau tair blynedd sydd wedi'u nodi yng nghyllideb derfynol 2008-09. Mae'n cynnwys:**

- **£10m ychwanegol yn 2009-10 a 2010-11 i ariannu costau cyfalaf uwch nad ydynt yn ymwneud ag arian parod yn dilyn cwblhau swyddfa Merthyr Tudful, uwchraddio systemau TGCh a phensiynau uwch;**
- **buddsoddiad ychwanegol o £0.5m yn 2009-10 a 2010-11 i gryfhau mesurau gwrthsefyll;**
- **£1.4m ychwanegol yn 2009-10 a 2010-11 i ariannu capasiti mwy i weithredu rhaglen ddeddfwriaethol a rhwymedigaethau statudol Llywodraeth y Cynulliad.**

**Yn ogystal, mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2009-10 yn cynnwys ailddyrannu adnoddau o fewn y PGG i alinio cyllidebau drafft 2009-10 â dyraniad cyllideb derfynol 2008-09. Yn nodedig ymhlith y rhain mae trosglwyddo £11.2m yn 2009-10 ac £14.2m yn 2010-2011 o adnoddau nas dyrannwyd o fewn Llinell Wariant Cyllideb Costau Staff i Linellau Gwariant Cyllidebol eraill o fewn y PGG. Nid yw hyn yn golygu gostyngiad yng nghyllid staff.**

### Meysydd Rhaglenni Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

#### Costau a Chyflogau Staff

Talu costau Llywodraeth y Cynulliad a Chomisiwn Iechyd Cymru.

#### Costau Gweinyddu Canolog Eraill

Costau rhedeg Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys rheoli ystadau ac adeiladau, gwariant gweinyddol cyffredinol, costau TG a rhaglenni gweinyddol (Datblygu Busnesau a Strategaeth Leoli yn bennaf). Gwneir dyraniad ychwanegol ar gyfer y Strategaeth Leoli yn ystod y flwyddyn yn dilyn trafodaethau a chamau pellach o ran swyddfeydd newydd Llywodraeth y Cynulliad yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno.

## Gwasanaethau Gweinidogol

Mae hyn yn cynnwys arian ar gyfer costau etholiadau lleol ac etholiadau Llywodraeth y Cynulliad yng Nghymru; gwasanaethau, gwerthusiadau ac ymchwil ystadegol; cysylltiadau corfforaethol Llywodraeth y Cynulliad; hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth; datblygu rhyngwladol; gwasanaethau gwybodaeth daearyddol; cyllid ar gyfer Confensiwn Cymru Gyfan a Chomisiwn Holtham; costau rhedeg y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol; a chostau'r Ymchwiliad E-Coli.

## Arian Cyfatebol

Arian cyfatebol canolog ar gyfer rhaglenni Cronfa Strwythurol yr UE 2007-13. Cronfa yw hon ar gyfer argyfwng, i sefydliadau na allant fel arall sicrhau arian cyfatebol ar gyfer prosiectau sy'n gwneud cyfraniad mawr at flaenoriaethau strategol Llywodraeth y Cynulliad.

### Tabl 10.1 Dyraniadau MRhG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

| | £000s | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008-09 | | | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **TGA** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Costau a Chyflogau Staff | 246,604 | 0 | **246,604** | 242,981 | 0 | **242,981** | 248,654 | 0 | **248,654** |
| Costau Gweinyddu Canolog Eraill | 67,958 | 15,033 | **82,991** | 91,577 | 15,033 | **106,610** | 92,779 | 15,033 | **107,812** |
| Gwasanaethau Gweinidogol | 10,142 | 0 | **10,142** | 9,960 | 0 | **9,960** | 8,039 | 0 | **8,039** |
| Arian Cyfatebol | 10,000 | 20,000 | **30,000** | 10,000 | 25,000 | **35,000** | 10,000 | 30,000 | **40,000** |
| **CYFANSWM CGR** | **334,704** | **35,033** | **369,737** | **354,518** | **40,033** | **394,551** | **359,472** | **45,033** | **404,505** |

*Noder: mae ffigurau 2008-09 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu strwythur newydd PGG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Caiff yr adolygiad hwn ei ffurfioli drwy gyllideb atodol maes o law.*

# ATODIAD 1 – Cysoni'r Gyllideb Weinyddol a Dyraniadau Adnoddau yn y Cynnig Blynyddol am y Gyllideb

Mae'r ddogfen hon yn ategu'r Cynnig Blynyddol Drafft am y Gyllideb, sy'n nodi'r adnoddau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu eu defnyddio yn ystod y ddwy flynedd nesaf a'r arian parod y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn yn dangos y cyllidebau ar sail weinyddol tra bo'r ffigurau yn y Cynnig Blynyddol Drafft am y Gyllideb ar sail adnoddau.

Mae cyllideb weinyddol Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys nifer o eitemau sy'n cael eu sgorio y tu allan i gyfrifon Llywodraeth y Cynulliad ac felly nid ydynt yn sgorio fel rhan o'r Adnoddau sy'n Ofynnol gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn cysoni cyllidebau gweinyddol ac adnoddau pob Prif Grŵp Gwariant.

### IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

| | £000s | |
|---|---|---|
| | **2009-10** | **2010-11** |
| **TGA** | | |
| Refeniw | 5,620,747 | 5,838,171 |
| Cyfalaf | 374,614 | 340,114 |
| **CYFANSWM CGR** | **5,995,361** | **6,178,285** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrff y GIG | -72,190 | -72,790 |
| Benthyca â Chymorth | -5,388 | -5,388 |
| Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Cenedlaethol (a'r costau casglu) | -987,776 | -987,776 |
| Costau Cyfalaf Ychwanegol | 65,286 | 65,286 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **4,995,293** | **5,177,617** |

## CYFIAWNDER CYMDEITHASOL A LLYWODRAETH LEOL

| | £000s | |
|---|---|---|
| | **2009-10** | **2010-11** |
| **TGA** | | |
| Refeniw | 4,323,325 | 4,447,201 |
| Cyfalaf | 76,431 | 82,031 |
| **GRF** | | |
| Refeniw | 13,025 | 13,583 |
| Cyfalaf | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CGR** | **4,412,781** | **4,542,815** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | | |
| Benthyca â Chymorth | -14,842 | -14,842 |
| Trethi Annomestig Cenedlaethol sy'n daladwy (a'r costau casglu) | -980,172 | -980,172 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **3,417,767** | **3,547,801** |

## YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH

| | £000s | |
|---|---|---|
| | **2009-10** | **2010-11** |
| **TGA** | | |
| Refeniw | 721,844 | 732,251 |
| Cyfalaf | 467,405 | 468,495 |
| **GRF** | | |
| Refeniw | 430,795 | 449,524 |
| Cyfalaf | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CGR** | **1,620,044** | **1,650,270** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | | |
| Benthyca â Chymorth | -16,478 | -16,478 |
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | -1,783 | -1,786 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **1,601,783** | **1,632,006** |

## PLANT, ADDYSG, DYSGU GYDOL OES A SGILIAU

| | £000s | |
|---|---|---|
| | **2009-10** | **2010-11** |
| **TGA** | | |
| Refeniw | 1,648,464 | 1,694,441 |
| Cyfalaf | 227,641 | 225,711 |
| **GRF** | | |
| Refeniw | 0 | 0 |
| Cyfalaf | 163,660 | 174,266 |
| **CYFANSWM CGR** | **2,039,765** | **2,094,418** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -284 | -284 |
| Benthyca â Chymorth | -45,699 | -45,699 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **1,993,782** | **2,048,435** |

## YR AMGYLCHEDD, CYNALIADWYEDD A THAI

| | £000s | |
|---|---|---|
| | **2009-10** | **2010-11** |
| **TGA** | | |
| Refeniw | 350,233 | 371,995 |
| Cyfalaf | 407,365 | 405,365 |
| **GRF** | | |
| Refeniw | -75,000 | -56,000 |
| Cyfalaf | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CGR** | **682,598** | **721,360** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | 3,198 | 3,198 |
| Benthyca â Chymorth | 80,989 | 80,989 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **598,411** | **637,173** |

## MATERION GWLEDIG

| | £000s | |
|---|---|---|
| | **2009-10** | **2010-11** |
| **TGA** | | |
| Refeniw | 134,835 | 138,454 |
| Cyfalaf | 17,536 | 17,536 |
| **GRF** | | |
| Refeniw | 0 | 0 |
| Cyfalaf | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CGR** | **152,371** | **155,990** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -10,458 | -10,458 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **141,913** | **145,532** |

## TREFTADAETH

| | £000s | |
|---|---|---|
| | **2009-10** | **2010-11** |
| **TGA** | | |
| Refeniw | 145,166 | 146,507 |
| Cyfalaf | 16,297 | 15,851 |
| **GRF** | | |
| Refeniw | 16,024 | 16,024 |
| Cyfalaf | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CGR** | **177,487** | **178,382** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -28,420 | -28,420 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **149,067** | **149,962** |

## GWASANAETHAU CYHOEDDUS A PHERFFORMIAD

| | £000s | |
|---|---|---|
| | 2009-10 | 2010-11 |
| **TGA** | | |
| Refeniw | 59,015 | 59,381 |
| Cyfalaf | 445 | 445 |
| **GRF** | | |
| Refeniw | 0 | 0 |
| Cyfalaf | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CGR** | **59,460** | **59,826** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | | |
| Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau | -376 | -375 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **59,084** | **59,451** |

## GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU

| | £000s | |
|---|---|---|
| | 2009-10 | 2010-11 |
| **TGA** | | |
| Refeniw | 354,518 | 359,472 |
| Cyfalaf | 40,033 | 45,033 |
| **GRF** | | |
| Refeniw | 0 | 0 |
| Cyfalaf | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CGR** | **394,551** | **404,505** |
| **Cysoni â'r Adnoddau** | | |
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | -110 | -110 |
| **Adnoddau y gwneir cais amdanynt** | **394,441** | **404,395** |

# ATODIAD 2 – Stociau HDB Cronnol Hanesyddol

Mae paragraffau 1.21 i 1.25 yn rhoi manylion y trefniadau HDB cyfredol ac agwedd gyffredinol Llywodraeth y Cynulliad at HDB. Mae'r tabl isod yn nodi stoc gronnol hanesyddol a chyfredol HDB Llywodraeth y Cynulliad ar sail y ffigurau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn y Papur Gwyn Alldro Gwariant Cyhoeddus.

### Tabl A2: Stociau HDB cronnol ar ddiwedd pob Blwyddyn Ariannol

| Blwyddyn Ariannol | £m | | |
|---|---|---|---|
| | Refeniw | Cyfalaf | Cyfanswm |
| 1999/00 | | | 234 |
| 2000/01 | | | 421 |
| 2001/02 | 377 | 1 | 378 |
| 2002/03 | 111 | 89 | 200 |
| 2003/04 | 237 | 51 | 288 |
| 2004/05 | 209 | 61 | 270 |
| 2005/06 | 122 | 66 | 188 |
| 2006/07 | 95 | 145 | 240 |
| 2007/08 | 164 | 224 | 388 |

*Nodiadau:*

- *Stociau HDB cronnol yw'r ffigurau uchod fel yr oeddent ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.*
- *Stoc HDB ar ddiwedd blwyddyn ariannol x = stoc HDB ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol – HDB a dynnir i lawr ym mlwyddyn ariannol x + gwahaniaeth rhwng y cyfanswm TGA ac alldro'r gwariant terfynol ym mlwyddyn ariannol x. Felly £240m yw cyfanswm y stoc ar ddiwedd 2006-07, ychwanegiad net o £52m at y stoc o £188m ar ddiwedd 2005-06.*
- *Nid yw'r rhaniadau rhwng cyfalaf a refeniw ar gyfer 1999/00 a 2000/01 ar gael gan na chymhwyswyd unrhyw raniad ffurfiol rhwng y symiau hyn i Gymru ar y pryd.*
- *Cymhwyswyd cyllidebu adnoddau a'r cysyniad o adnoddau sydd bron yn arian parod ac adnoddau nad ydynt yn arian parod i Gymru yn 2003-04. Fodd bynnag, ar gyfer blynyddoedd ariannol 2003-04 a 2004-05, ni wahaniaethwyd rhwng yr hyn oedd bron yn arian parod a'r hyn nad oedd yn arian parod at ddibenion HDB. Ffigurau arian parod yn unig yw'r ffigurau ar gyfer y cyfnod 1999-00 i 2002-03 a 2005-06 ymlaen.*
- *£237m oedd stociau HDB nad oeddent yn arian parod yn 2005-06, £296m yn 2006-07 a £512m yn 2007-08.*

Fel y nodwyd ym mharagraff 1.23, mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu defnyddio'n llawn y stociau a gronnwyd hyd at 2006-07 yn ystod y cyfnod 2008-09 i 2010-11. Caiff amseru a phroffil yr arian a dynnir i lawr o'r HDB a gronnwyd yn 2007-08 ei drafod gyda Llywodraeth y DU.

# ATODIAD 3 – Rhestr Eirfa

| | |
|---|---|
| Adnoddau nad ydynt yn arian parod | adnoddau a gronnwyd ac a gynhwysir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cysylltiad uniongyrchol â ffrydiau arian parod yn y cyfnod dan sylw, ee cost ffïoedd a darpariaethau cyfalaf. Ni ellir defnyddio adnoddau nad ydynt yn arian parod i gyllido gwario adnoddau sydd bron yn arian parod. |
| Adnoddau sydd bron yn arian parod | trafodion a gronnwyd sydd fel rheol yn troi'n ffrwd arian parod yn fuan, er enghraifft, tâl, caffael cyfredol, grantiau refeniw a chymorthdaliadau. |
| Adolygiad o Wariant | bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys EM yn adolygu gwariant pob adran yn Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y tair blynedd i ddod. Mae'r cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy fformwla Barnett. (gweler troednodyn 3) |
| CNLC | Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad |
| Cronfa Gyfunol Cymru | y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU. |
| Cwmpas-gylchoedd | disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasgylchoedd a'r cyfyngiadau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yn y Cynnig Blynyddol am y Gyllideb. Mae'r cwmpasgylchoedd yn cyfateb i'r MEGau. |
| Cyfalaf | gwariant sy'n arwain at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau TGA ac GRF Llywodraeth y Cynulliad gyfyngiadau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw. |
| Cyfanswm y Gwariant a Reolir (CGR) | Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol. |

| | |
|---|---|
| Cyllidebu adnoddau | mae cyllideb Llywodraeth y Cynulliad wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd. Dechreuwyd gwahaniaethu rhwng adnoddau nad ydynt yn arian parod ac arian sydd bron yn arian parod fel rhan o'r symudiad i gyllidebu adnoddau ar ôl Adolygiad 2002 o Wariant. |
| *Cymru'n Un* | cytundeb rhwng Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n cyflwyno rhaglen flaengar, sefydlog ac uchelgeisiol ar gyfer llywodraethu yn ystod y tymor Cynulliad hwn. Mae'n cynnig agenda flaengar ar gyfer gwella ansawdd bywyd pobl yn holl gymunedau Cymru, o bob cefndir ac yn enwedig y mwyaf agored i niwed a difreintiedig. Gallwch ddarllen *Cymru'n Un* a'r cynllun gweithredu atodol yn:<br><br>http://wales.gov.uk/about/strategy/1wales/?lang=cy |
| Cynnig am y Gyllideb | y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig a thynnu arian parod hyd at derfyn penodol, o Gronfa Gyfunol Cymru. |
| Derbyniadau | mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth y Cynulliad yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel adnoddau a dderbynnir a chânt eu dangos fel ffigur negyddol. |
| Dibrisiant | y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei bod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o TGA Llywodraeth y Cynulliad ond mae'n eitem nad yw'n ymwneud ag arian parod. |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF) | gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, aml-flwyddyn yn yr un ffordd â TGA. Mae GRF, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr ac yn ymateb i'r galw. Caiff lefelau GRF eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Adroddiad Cyllideb a Chyn-Gyllideb Trysorlys EM. |

| | |
|---|---|
| Llinell Wariant Cyllideb | o fewn pob MRhG, caiff cyllidebau eu dyrannu i nifer o is-raglenni a elwir yn Llinellau Gwariant Cyllideb. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel Llinellau Gwariant Cyllideb i'w gweld yn http://new.wales.gov.uk/about/finance/assemblybudgets/?lang=cy |
| Maes Rhaglen Wariant | o fewn pob PGG, caiff cyllidebau eu dyrannu i Feysydd Rhaglenni Gwariant yn ôl y math o wasanaethau y byddant yn eu darparu. |
| Prif Grŵp Gwariant (PGG) | caiff TGA Llywodraeth y Cynulliad ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ar hyn o bryd mae 9 ohonynt: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol; yr Economi a Thrafnidiaeth; Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai; Materion Gwledig; Treftadaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. |
| Refeniw | gwariant cyfredol, er enghraifft, arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul. |
| Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) | terfyn cyfanswm y gyllideb ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y TGA ei gynllunio a'i reoli ar sail tair blynedd mewn Adolygiadau o Wariant. Nid yw GRF wedi'i gynnwys yn y TGA. |